



Monitro manau cadw

Trydydd **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Atal Cenedlaethol
y Deyrnas Unedig
1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012



Monitro manau cadw

Trydydd Adroddiad Blynyddol
Mecanwaith Atal Cenedlaethol
y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Chwefror 2013

© Crown copyright 2013

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl ar unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd daliwr yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk neu HMI Prisons, 1st Floor, Ashley House, Monck Street, London SW1P 2BQ.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk

ISBN 9780101855822

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2539984 02/13

Printed on paper containing 75% recycled fibre content minimum.

Cynnwys

Rhagymadrodd	4
Gan Nick Hardwick, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Garchardai	
1 Cyd-destun	6
Ynglŷn ag OPCAT a'r NPM	7
Gweithredu OPCAT yn y DU	7
2 Y drydedd flwyddyn – golwg gyffredinol	10
Gweithgareddau ar y cyd	11
Erthygl 19(c)	13
Datblygu cydlynid	13
Cydymffurfio ag OPCAT	14
Cysylltiadau allanol	16
Argymhelliad	17
3 Defnyddio grym a ffrwyno	18
Diffiniad	19
Monitro defnyddio grym a ffrwyno	20
Plant a phobl ifanc mewn llety diogel	20
Lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol	22
Dalfeydd yr heddlu	24
Carchardai	25
4 Hebrwng pobl a gedwir	26
Hebrwng yn y system cyfiawnder troseddol	27
Hebryngiadau tramor	31
Argymhellion	33
5 Monitro lleyg	34
Ymweld â dalfeydd yn yr Alban	38
Pwyllgorau ymweld â charchardai yn yr Alban	40
Monitoriaid lleyg o fewn arolygiaethau	41
Argymhellion	41
6 Edrych ymlaen – blwyddyn pedwar	42
7 Golwg gyffredinol ar yr aelodau	44
8 Crynodeb o'r argymhellion	50
9 Atodiadau	52
1 Datganiad ysgrifenedig gan y gweinidog – 31 Mawrth 2009	53
2 Mwy o wybodaeth am NPM y DU	54
3 Rhestr o dalfyriadau	55



Rhagymadrodd gan Nick Hardwick

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Garchardai

Dyma drydydd adroddiad blynyddol Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) y DU, y grŵp o 18 o sefydliadau a enwebwyd i gyflawni ymrwymiadau'r DU i sicrhau bod y driniaeth a gaiff pobl sydd wedi colli eu rhyddid, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu monitro'n annibynnol. Mae'r ymrwymiadau hyn yn deillio o statws y DU fel un o bartion Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill (OPCAT). Diben monitro yw atal camdriniaeth ym mhob man cadw – o garchardai i gartrefi plant i ysbytai diogel. Mae'r manau hyn yn nodweddiadol allan o olwg y cyhoedd ac mae'r bobl a gedwir ynddynt yn gynhenid agored i niwed. Mae gwaith 18 aelod yr NPM yn diogelu eu hawl i gael eu cadw'n ddiogel gyda pharch at eu hurddas dynol.

Er bod gan y DU hanes hir o ymweliadau â manau cadw, yn enwedig â charchardai, mae cadarnhad y llywodraeth i OPCAT ac enwebiad yr NPM wedi pwysleisio pwysigrwydd monitro annibynnol a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Yn unol ag OPCAT, mae aelodau'r NPM yn cynnal ymweliadau rheolaidd â manau cadw, gan ganolbwyntio ar driniaeth ac amodau a chasglu barn pobl a gedwir ynddynt. Mae'r aelodau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Gwneir prif waith NPM gan aelodau unigol yn eu harolygiadau neu eu hymweliadau eu hunain, ac adroddir am y

gwaith yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain. Fodd bynnag, mae gan Arolygiaeth Carchardai EM swyddogaeth cyd-drefnu.

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi ceisio crynhoi gweithgareddau a chanfyddiadau 18 aelod yr NPM a chanfod themâu cyffredin sy'n ymddangos mewn manau cadw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Eleni, fodd bynnag, rydym wedi ceisio canolbwyntio ar faterion allweddol a gododd o'n gwaith yn ystod y flwyddyn, ac wedi gwneud llawer o argymhellion gyda'r nod o atal camdriniaeth mewn manau cadw a sicrhau y caiff OPCAT ei weithredu'n effeithiol yn y DU.

Mae defnyddio grym a ffrwyno wedi bod yn bryder allweddol i holl aelodau'r NPM, heb ystyried y math o fan cadw sy'n cael ei fonitro na'r awdurdodaeth lle mae'n gweithredu. Er gwaethaf yr holl ganllawiau a safonau, gwelwn fod grym yn aml yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol: caiff ei ddefnyddio pan nad oes ei angen; caiff ei ddefnyddio'n anghymesur; nid yw staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol; ac nid oes digon o drefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi canfod enghreifftiau o arfer da, sy'n dangos ei bod yn bosibl defnyddio canllawiau a safonau perthnasol hyd yn oed wrth wynebu ymddygiad heriol. Felly, rydym yn ailadrodd yn yr adroddiad hwn beth yw cydrannau allweddol system grym a ffrwyno sy'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar hebrwng pobl a gedwir, gan gydnabod bod pobl a gedwir yn gallu bod yn arbennig o agored i niwed pan gânt eu hebrwng i, o neu rhwng mannau cadw. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar hebrwng yn y system cyfiawnder troseddol ac ar hebryngiadau tramor. Mae hebryngiadau tramor wedi bod yn faes gwaith newydd i aelodau'r NPM sy'n monitro cadw pobl sy'n mewnfudo, ac mae'n cynnwys monitro pobl a gedwir wrth iddynt gael eu symud o'r DU, gan gynnwys ar eu hediadau o'r DU. Rydym yn gwneud argymhellion i awdurdodau sy'n gyfrifol am hebryngiadau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn taro cydbwysedd priodol rhwng cludo pobl a gedwir yn ddiogel, a bod yn ddyngar a'u cadw hwy'n ddiogel heb droi at fesurau diogelwch anghymesur.

Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi tynnu sylw at waith gwerthfawr y cyrff monitro lleyg o fewn ein NPM. Gwneir gwaith pedwar o'r 18 o aelodau gan wirfoddolwyr sy'n monitro carchardai a dalfeydd yr heddlu yn eu cymunedau lleol. Maent yn gwneud hynny'n aml ac ag ymroddiad da. Rydym yn gwneud argymhellion am gyloch gwaith monitoriaid lleyg ac am eu cefnogi gyda'r nod o sicrhau y gweithredir OPCAT yn effeithiol yn y DU.

Rydym hefyd wedi crynhoi gweithgareddau cydlynol a chydgyssylltiedig aelodau'r NPM ac wedi nodi cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol y dylai'r llywodraeth enwir mannau cadw nad ydynt yn destun ymweliadau annibynnol a sicrhau yr unionir y bylchau hynny o ran diogelu. Mae'n bleser gennym nodi bod y llywodraeth wedi ymestyn cylchoedd gwaith aelodau'r NPM i gynnwys dalfeydd llysoedd yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â chyfleusterau dalfa tollfeydd. Er bod angen gwneud cynnydd o hyd o ran mannau cadw milwrol, rydym yn symud yn agosach at weithredu OPCAT yn llawn.

Mae ein hargymhellion wedi'u cyfeirio at lywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a'r awdurdodau hynny sy'n gyfrifol am fannau cadw.

Hoffem ddiolch i Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste a'r Gymdeithas Atal Artaith am eu cymorth parhaus a'u cyfraniad at ein gwaith.



Nick Hardwick

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Garchardai

Adran un Cyd-destun

Ynglŷn ag OPCAT a'r NPM

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu pobl sydd wedi colli eu rhyddid. Cafodd ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002, gan adlewyrchu consensws ymysg y gymuned ryngwladol fod pobl sydd wedi colli eu rhyddid yn arbennig o agored i niwed drwy gamdriniaeth ac y dylai ymdrechion i frwydro yn erbyn camdriniaeth o'r fath ganolbwyntio ar ei hatal. Mae OPCAT yn corffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal camdriniaeth mewn manau cadw yw â system o ymweliadau annibynnol a rheolaidd â phob man cadw. Yn ystod ymweliadau o'r fath, caiff triniaeth y bobl a gedwir yno, a'r amodau ar eu cyfer, eu monitro.

Mae'n ofynnol i wladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT enwebu 'meganwaith atal cenedlaethol' (NPM), corff neu grŵp o gyrff sy'n archwilio'n rheolaidd sut y caiff pobl a gedwir eu trin, yn gwneud argymhellion ac yn cynnig sylwadau am ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft gyda golwg ar wella'r driniaeth a gaiff pobl a gedwir a'r amodau ar eu cyfer. I gyflawni eu swyddogaeth monitro'n effeithiol, rhaid i'r NPM fod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro. Mae OPCAT yn pennu'r pwerau y dylai NPM eu cael, gan gynnwys y gallu i:

- fynd i bob man cadw (gan gynnwys rhai a weithredir gan ddarparwyr preifat)
- cynnal cyfweiliadau preifat â phobl a gedwir a phobl berthnasol eraill
- dewis pa fannau i ymweld â hwy a phwy y maent yn dymuno cyfweld â hwy
- gweld gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi colli eu rhyddid, nifer y manau cadw a'u lleoliad

- gweld gwybodaeth am driniaeth pobl a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer.

Mae OPCAT hefyd yn mynnu bod yr NPM yn cael digon o adnoddau i gyflawni eu swyddogaeth. Dylai fod gan eu personél yr arbenigedd sydd ei hangen a dylent fod yn ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned lle maent yn gweithredu.

Ar lefel ryngwladol, sefydlodd OPCAT yr Is-bwyllgor Atal Artaith (SPT). Mae'r SPT wedi'i wneud o 25 o arbenigwyr o bob rhan o'r byd ac mae ganddynt swyddogaeth weithredol ac ymgynghorol. Fel rhan o'u swyddogaeth weithredol, mae'r SPT yn gallu ymweld â manau cadw yn unrhyw Wladwriaeth sydd wedi cadarnhau OPCAT a gwneud argymhellion i'r Wladwriaeth am amddiffyn pobl a gedwir rhag camdriniaeth. Yn eu swyddogaeth ymgynghorol, mae'n ofynnol i'r SPT gynghori a chynorthwyo Gwladwriaethau wrth iddynt sefydlu NPM ac, yna, gadw cysylltiad uniongyrchol â'r NPM a chynnig hyfforddiant a chymorth iddynt.

Gweithredu OPCAT yn y DU

Cymeradwyodd y DU OPCAT ym mis Rhagfyr 2003 ac enwebwyd NPM y DU ym mis Mawrth 2009. Cyfrifoldeb llywodraeth y DU oedd enwebu'r NPM, a dewisodd enwebu nifer o gyrff a oedd yn bodoli eisoes yn NPM yn hytrach na chreu un corff newydd i fod yn NPM. Roedd hyn yn ystyried y ffaith bod llawer o fathau o fannau cadw yn y DU eisoes yn cael eu monitro gan gyrff annibynnol, fel y rhagwelodd OPCAT. Wrth enwebu cyrff sy'n bodoli eisoes yn aelodau o'r NPM, gwnaeth y llywodraeth ofyniad penodol bod ganddynt statws statudol a'u bod yn gallu cynnal ymweliadau dirybudd â manau cadw.

Casgliad y llywodraeth oedd bod 18 o gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bodloni'r gofynion hynny. Cafodd y gyrff hyn eu henwebu'n ffurfiol yn NPM y DU mewn datganiad i'r Senedd ar 31 Mawrth 2009 (gweler Atodiad I).

Ar y pryd, nododd y llywodraeth hefyd y gellid ychwanegu gyrff ychwanegol at yr NPM yn y dyfodol. Mae'r gyrff sy'n rhan o'r NPM yn monitro gwahanol fathau o fannau cadw, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd llysoedd, cyfleusterau dalfa tollfeydd, llety diogel i blant, a mannau cadw sy'n ymwneud â mewnfudo, iechyd meddwl a'r fyddin.

Ac ystyried maint a chymhlethdod NPM y DU – endidau un corff yw NPM y rhan fwyaf o wledydd eraill – cytunwyd y byddai Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) yn gwneud gwaith cyd-drefnu a chyfathrebu'r NPM. Diben cyd-drefnu yw hybu cydlynid a chyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM, annog cydweithredu a rhannu gwybodaeth ac arfer da, a hwyluso gweithgareddau ar y cyd. Cyflawnir y swyddogaeth gan gyd-drefnydd NPM, a benodir gan HMIP i gysylltu â holl aelodau'r NPM, cynghori aelodau am weithredu OPCAT yn effeithiol, rhannu gwybodaeth â hwy, a chynorthwyo â materion sy'n ymwneud â pholisiau a hawliau dynol. Er bod y cyd-drefnydd wedi'i leoli yn HMIP, mae'n cynrychioli buddiannau'r holl aelodau, yn cysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Artaith, gyrff NPM eraill a rhanddeiliaid allanol, yn paratoir adroddiad blynyddol, ac yn trefnu cyfarfodydd a gweithdai.

Er bod cyd-drefnu'n hanfodol i weithredu OPCAT yn llawn ac yn effeithiol yn y DU, perchir annibyniaeth aelodau unigol yr NPM, ynghyd â'u gallu i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer monitro manau cadw. Cyflawnir gofyniad hanfodol OPCAT, sef bod pob man cadw'n cael ei fonitro'n annibynnol, gan aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Cyhoeddir canfyddiadau manwl am sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn adroddiadau arolygu neu adroddiadau blynyddol pob aelod.

Ar hyn o bryd, mae NPM y DU yn cynnwys y gyrff canlynol:

Cymru a Lloegr

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)¹
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)
Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC)
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

Yr Alban

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)²

1 Er bod y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi'i rhestru fel sefydliad sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, mae ei haelodau'n cynnwys ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sy'n gweithredu yn yr Alban (ICVS).
2 Roedd swyddogaeth monitro manau cadw'r Arolygiaeth Gofal yn arfer bod yn un o swyddogaethau Comisiwn Rheoleiddio Gofal yr Alban, neu'r Comisiwn Gofal. Ym mis Ebrill 2011, daeth y Comisiwn Gofal, yr Asiantaeth Arolygu Gwaith Cymdeithasol a Chyfarwyddiaeth 6 Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi yn Arolygiaeth Gofal Iechyd a Gwaith Cymdeithasol yr Alban (yr 'Arolygiaeth Gofal'). Rhagwelir y caiff yr Arolygiaeth Gofal ei henwebu'n ffurfiol yn un o aelodau'r NPM i gymryd lle'r Comisiwn Gofal.

Gogledd Iwerddon

Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
 Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
 Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio (RQIA)
 Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

Mae'r tabl isod yn rhoi golwg gyffredinol ar aelodau'r NPM sy'n gyfrifol am fonitro pob math o fan cadw ym mhob awdurdodaeth yn y DU. Dylid nodi bod gan Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr hawl i fynd i unrhyw safle, heblaw annedd breifat, i gyfweld ag unrhyw blentyn sy'n lletya neu'n derbyn gofal yno. Yn yr un modd, mae gan Gomisiwn Hawliau Dynol yr Alban bŵer cyffredinol i gael mynediad i unrhyw fan cadw a'i arolygu yng nghydestun ymchwiliad i bolisiau neu arferion awdurdodau cyhoeddus yr Alban.

	Lloegr	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Carchardai	HMIP gyda CQC ac Ofsted IMB	HMIP gyda HIW IMB	HMIPS	CJINI a HMIP gyda RQIA IMBNI
Carchardai	HMIC a HMIP ICVA	HMIC & HMIP ICVA	HMICS ICVS	CJINI gyda RQIA NIPBICVS
Dalfeydd llysoedd	HMIP	HMIP	HMIPS	CJINI
Plant mewn llety diogel	Ofsted (ar y cyd â HMIP ar gyfer canolfannau hyfforddi diogel)	CSSIW	CI	RQIA CJINI
Cadw dan gyfraith iechyd meddwl	CQC	HIW	MWCS	RQIA
Trefniadau diogelu rhag amddifadu o ryddid	CQC	HIW CSSIW	amh	amh
Mannau cadw mewnfudo	HMIP IMB	HMIP IMB	HMIP IMB	HMIP IMB
Mannau cadw milwrol ³	HMIP	HMIP	HMIP	HMIP
Cyfleusterau dalfa tollfeydd	HMIC a HMIP	HMIC a HMIP	HMIC a HMIP	HMIC a HMIP

³ Cynhelir arolygiadau cyfleusterau cadw milwrol drwy wahoddiad yn unig - nid oes gan HMIP hawl mynediad statudol. Nid yw pob cyfleuster cadw milwrol yn cael ei arolygu ar hyn o bryd.

Adran dau Y drydedd flwyddyn – golwg gyffredinol

Yn 2011-12, roedd aelodau NPM y DU yn parhau i gynnal ymweliadau rheolaidd â mannau cadw, gan fonitro triniaeth y bobl a gadwyd ynddynt a'r amodau ar eu cyfer, a gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol. Mae gweithgareddau'r aelodau a'u canfyddiadau wedi'u disgrifio yn eu hadroddiadau blynyddol unigol. Yn yr adroddiad blynyddol hwn i'r NPM i gyd, rydym yn nodi gweithgareddau'r aelodau gyda'i gilydd, sut y mae cyd-drefnu'n datblygu ac i ba raddau y mae OPCAT ar waith yn y DU. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi sylw i faterion allweddol a ystyriwyd gan aelodau'r NPM yn 2011-12:

- defnyddio grym a ffrwyno mewn mannau cadw
- hebrwng pobl a gedwir
- swyddogaeth monitoriaid lleig o fewn yr NPM.

Gweithgareddau ar y cyd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae aelodau wedi parhau i gryfhau'r perthnasoedd rhyngddynt a datblygu eu hunaniaeth fel NPM. Wrth iddynt ddysgu am eu swyddogaethau ei gilydd, bu cynnydd amlwg mewn gweithio dwyochrog ac amlochrog ymysg aelodau; maent wedi rhannu gwybodaeth a llwyddo i osgoi dyblygu gwaith.

Yn 2011-12, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau NPM, ac mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai ohonynt yn fanylach yn ddiweddarach:

- cyfarfodydd busnes NPM chwe-misol gyda'r holl aelodau'n bresennol
- gweithdy i gyrff lleig yr NPM yn unig, i archwilio gweithredu OPCAT yng nghyddestun monitro gan aelodau di-dâl o'r gymuned leol

4 SPT, Canllawiau ar fecanweithiau atal cenedlaethol CAT/OP/12/5 (09/12/10) (Canllawiau SPT); SPT Dulliau'r SPT o ymdrin â chysyniad atal artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiladdiol eraill dan OPCAT CAT/OP/12/6 (30/12/10) ('SPT ar Atal').

- gweithdy thematig am ddefnyddio grym a ffrwyno – un o bryderon allweddol aelodau, pa fath bynnag o fan cadw sy'n cael ei fonitro.

Mae ein cyfarfodydd busnes NPM yn rhoi cyfle i aelodau drafod canfyddiadau allweddol neu arferion gorau, defnyddio'r hyn a ddysgwyd wrth fonitro un math o fan cadw ar gyfer math arall, a dysgu o waith mewn awdurdodaethau eraill. Mewn cyfarfodydd yn 2011-12, archwiliodd yr aelodau beth yw diffiniad cadw. Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng cyfyngiad a cholli rhyddid, i ba raddau y gellid ystyried bod rhai pobl sy'n byw, er enghraifft, mewn ysbytai a chartrefi gofal yn cael eu cadw os cânt eu hatal rhag gadael pe baent yn dewis gwneud hynny, ac a oes trefniadau diogelu digonol i amddiffyn pobl yn y sefyllfaoedd hyn. Ac ystyried cymhlethdod y materion hyn, penderfynodd aelodau'r NPM eu harchwilio'n fanylach yn ystod 2012-13 a rhannu gwybodaeth ar draws awdurdodaethau yn y DU am gadw de facto. Soniodd aelodau hefyd am bryderon cyffredin y gallent fod yn destun gwaith ar y cyd yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys carchariad unigol, chwilio pobl a gedwir ac ymwelwyr a chymryd samplau, a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Trafododd yr aelodau arferion gorau o ran monitro mannau cadw a'r priodoleddau y dylent fod gan NPM er mwyn cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol. Yn benodol, trafododd yr aelodau gysyniad annibyniaeth, gan archwilio a ydynt yn ddigon annibynnol i fodloni gofynion OPCAT. Er bod OPCAT ei hun yn pennu rhai gofynion sylfaenol, mae'r SPT wedi darparu canllawiau pellach ar ffurf a gweithrediad NPM.⁴ Gan ystyried y rhain, penderfynodd NPM y DU ffurfio disgwyliadau – set o bwyerau ac arferion a ddisgwylir gan unrhyw aelod o'n NPM ni ac sy'n hanfodol i fonitro effeithiol.

Disgwyliadau

- 1** Dylai cyrff monitro fod yn annibynnol ar yr awdurdodau y maent yn ymweld â hwy/yn eu harolygu ac ar y llywodraeth.
Erthyglau OPCAT 17, 18(1)
- 2** Dylai cyrff monitro fod yn amhleidiol.
Canllawiau SPT 18, 19, 30
- 3** Dylai fod gan gyrff monitro hawl i gyhoeddi eu canfyddiadau a gwneud argymhellion at ddiben atal camdriniaeth a gwella safonau manau cadw.
*Erthyglau OPCAT 19(b), (c);
Canllawiau SPT 36*
- 4** Dylai cyrff monitro gael mynediad dirwysr i fannau cadw. Dylid caniatáu mynediad hyd yn oed pan fydd cyrff monitro'n cyrraedd yn ddirybudd.
*Erthyglau OPCAT 20(c), (e);
Canllawiau SPT 25*
- 5** Dylai cyrff monitro gael mynediad dirwysr at bob unigolyn a gedwir ac at wybodaeth amdanynt.
Erthygl OPCAT 20
- 6** Mae llais yr unigolyn a gedwir yn rhan hanfodol o unrhyw broses o fonitro manau cadw.
Erthygl OPCAT 20(d)
- 7** Rhaid rhoi ffocws ar atal camdriniaeth.
Erthyglau OPCAT 1, 3
- 8** Dylid arolygu pob man cadw'n rheolaidd.
Erthyglau OPCAT 1, 19(a)
- 9** Dylai cyrff monitro bennu eu meini prawf eu hunain ar gyfer monitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer.
Canllawiau SPT 12
- 10** Dylai'r meini prawf monitro fod yn seiliedig yn gadarn ar safonau hawliau dynol a dylent fod yn dryloyw.
Erthygl OPCAT 19(b)
- 11** Dylai fod gan gyrff monitro ddigon o adnoddau i gyflawni eu swyddogaeth.
Erthygl OPCAT 18(3)
- 12** Dylai fod cylch gwaith cyrff monitro wedi'i nodi mewn statud.
Canllawiau SPT 7
- 13** Dylid recriwtio a phenodi staff cyrff monitro mewn modd agored a theg.
Canllawiau SPT 16
- 14** Dylai cyrff monitro hybu ac annog parch at amrywiaeth o fewn eu gweithlu eu hunain ac wrth fonitro manau cadw.
Erthygl OPCAT 18(2); SPT ar Atal 5(j)

Erthygl 19(c)

Yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd â mannau cadw, mae OPCAT yn mynnu bod gan NPM bŵer i gyflwyno cynigion ac arsylwadau ynghylch deddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft. Ystyrir bod Erthygl 19(c) yn rhagweld swyddogaeth fwy strategol i gyrff NPM lle gallant geisio gwella triniaeth pobl a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, ar lefel genedlaethol. Mae aelodau NPM y DU yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn unigol a gyda'i gilydd. Bydd aelodau unigol yn aml yn rhoi sylwadau am gynigion polisi neu ddeddfwriaeth ddrafft. Yn 2011-12, roedd hyn yn cynnwys:

- ymateb gan Gomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) i ymgynghoriad gan y llywodraeth am gadw a holi pobl a amheuir yn nalfar heddlu a'u hawl i gael cymorth cyfreithiol
- tystiolaeth gan SHRC a gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban i Gomisiwn ar Droseddwyr Benywaidd a sefydlwyd gan lywodraeth yr Alban i archwilio ffyrdd o wella canlyniadau i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol
- tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Lloegr a gan HMIP i ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i'r system cyfiawnder ieuencid
- ymateb gan HMIP i bapur gwyrdd yr Undeb Ewropeaidd ar fannau cadw, a oedd yn cefnogi ymatebion NPM Ffrainc ac NPM Sbaen.

Mae aelodau'r NPM hefyd wedi rhoi sylwadau am bolisi a deddfwriaeth ar y cyd. Er enghraifft, ymatebodd yr NPM i gynigion llywodraeth yr Alban i ddiwygio plismona, gan alw'n llwyddiannus ar y llywodraeth i ddefnyddio'r diwygiad hwn fel cyfle i gryfhau trefniadau ymweld â dalffeydd.

Datblygu cydlyniad

Er bod HMIP wedi'i benodi'n gorff cyd-drefnu, nid yw'n 'gyfrifol' am yr NPM: nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ran yr aelodau heb ymgynghori â hwy'n gyntaf i sicrhau consensws. Mae cyd-drefnu grŵp mor fawr ac amrywiol o sefydliadau'n gallu bod yn waith heriol ac mae'n gallu bod yn anodd sicrhau cytundeb ar rai faterion penodol, yn enwedig pan fo angen penderfyniadau cyflym. Mae'n debygol mai dim ond cynyddu a wnaiff yr heriau hyn wrth i'r llywodraeth ystyried ehangu aelodaeth yr NPM.

I ateb rhai o'r heriau hyn, cytunodd yr aelodau i sefydlu grŵp llywio. Swyddogaeth y grŵp llywio yw hwyluso gwaith penderfynu, gosod cyfeiriad strategol gwaith wedi'i gyd-drefnu neu waith ar y cyd, monitro canlyniad a gwerth gwaith o'r fath, a chefnogi HMIP a chydlynedd yr NPM wrth eu gwaith. Mae gan y grŵp llywio bump o aelodau, sef HMIP (y corff cyd-drefnu) ac un aelod o bob un o'r pedair gwlad. Dechreusant eu gwaith ym mis Ionawr 2011 ac maent yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Mae creu grŵp llywio wedi bod yn gam cadarnhaol o ran datblygu cyd-drefniant yr NPM, ac mae wedi golygu bod gan yr NPM, am y tro cyntaf, gynllun busnes ar gyfer ei weithgareddau cydgysylltiedig yn 2012-13.5 Diben y grŵp llywio yw gwneud y gorau o ymdrechion i atal camdriniaeth ym mhob man cadw drwy gyd-drefnu'r NPM yn effeithiol. Bydd y grŵp llywio'n monitro cynnydd yn erbyn tri amcan allweddol y cynllun:

- cefnogi aelodau'r NPM a hybu cydweithio rhyngddynt a rhannu gwybodaeth ac arfer da.
- hybu cydymffurfiad ag OPCAT yn y DU.

- codi ymwybyddiaeth o'r NPM yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'n bwysig nodi bod y cynllun busnes yn rhoi sylw i gyd-drefnu'r NPM, nid i weithgareddau monitro dyddiol yr holl aelodau; rhoddir sylw i hynny yng nghynlluniau unigol pob sefydliad.

Cydymffurfio ag OPCAT

Er bod trefniadau monitro annibynnol wedi'u hymgorffori'n gadarn mewn llawer o fannau cadw yn y DU, mae'r broses o roi OPCAT ar waith yn dal i fynd rhagddi. Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, enwyd rhai manau cadw nad oeddent yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn annibynnol gan yr NPM. Roedd y rhain yn cynnwys dalfeydd llysoedd yng Nghymru a Lloegr, rhai manau cadw milwrol, a dalfeydd tollau a weithredir gan Lu Ffiniau'r DU. Roedd bylchau o'r fath yn golygu nad oedd y DU eto'n cydymffurfio'n llawn ag OPCAT, gan fod Erthygl 4 yn mynnu bod pob man cadw'n cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn annibynnol. Ym mhob un o'n hadroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi argymhell bod llywodraeth y DU yn rhoi sylw i unrhyw fylchau o'r fath. Mae'n bleser gennym nodi y cafwyd cynnydd sylweddol yn y meysydd hyn.

Dalfeydd llysoedd

Gwahoddodd y llywodraeth HMIP i gynnal arolygiadau rheolaidd o ddalfeydd llysoedd. Yn 2011–12, datblygodd HMIP feini prawf arolygu a methodoleg arolygu i ddalfeydd llysoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnal cyfnod peilot; dechreuodd rhaglen arolygu yn 2012–13. I ddechrau, caniatawyd mynediad i'r llysoedd dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng HMIP a'r llywodraeth, ond cafodd hyn statws statudol ar ddiwedd 2012.⁶ Er y cafodd HMIP bŵer statudol i arolygu'r mwyafrif helaeth o gyfleusterau

dalfa llysoedd, gan gynnwys mewn llysoedd y Goron, llysoedd sirol a llysoedd ynadon, mae rhai cyfleusterau'n dal i fod y tu hwnt i'w cylch gwaith, gan gynnwys rhai'r Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, er enghraifft. Felly, mae rhai bylchau'n dal i fodoli.

Caiff cyfleusterau dalfa llysoedd, gan gynnwys hebrwng pobl a gedwir i'r llysoedd ac oddi yno, eu monitro gan arsylwyr lleyg – gwirfoddolwyr o'r gymuned leol. Nid oedd arsylwyr lleyg wedi'u cynnwys yn yr NPM pan enwebwyd yr aelodau yn 2009, er eu bod yn cyflawni swyddogaeth debyg i gyrff monitro lleyg eraill a oedd wedi'u henwebu (gan gynnwys ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr heddlu a byrddau monitro annibynnol carchardai). Mae'r NPM wedi cefnogi cais yr arsylwyr lleyg i gael eu hychwanegu at yr NPM, a gobeithiwn y bydd y llywodraeth yn cytuno â hyn cyn bo hir. Os cytunir ar hyn, bydd yn golygu y ceir haenau monitro i ddalfeydd llysoedd Cymru a Lloegr – gan arolygiaeth broffesiynol a chorff lleyg – fel sydd eisoes yn wir am garchardai a dalfeydd yr heddlu.

Dalfeydd tollau

Gweithredir cyfleusterau dalfeydd tollau gan Lu Ffiniau'r DU. Maent wedi'u lleoli mewn manau mynediad i'r DU a chânt eu defnyddio i ddal pobl am gyfnodau byr os credir, er enghraifft, eu bod wedi dod i'r DU ar ôl llyncu cyffuriau at ddiben smyglo. Caiff pobl o'r fath eu dal dan yr un fframwaith rheoleiddio ag sy'n berthnasol i bobl a gedwir gan yr heddlu. Mae Llu'r Ffiniau wedi bod yn awyddus i sicrhau bod y cyfleusterau dalfa hyn yn cael eu monitro'n unol ag OPCAT. Cafodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, un o aelodau'r NPM, bŵer statudol i arolygu'r cyfleusterau a chynaliasant eu harolygiad cyntaf ar ddiwedd 2012, ar y cyd â HMIP.

⁶ Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012.

Mannau cadw milwrol

Gwnaethpwyd cynnydd hefyd o ran y cyfleusterau dalfeydd gwasanaeth a weithredir gan Luoedd Arfog Prydain. Defnyddir y cyfleusterau hyn i ddal personél milwrol sydd wedi troseddu yn erbyn cyfraith filwrol neu gyfraith droseddol am hyd at 14 diwrnod. Mae'r llywodraeth wedi dweud y byddant yn gwahodd HMIP i arolygu'r cyfleusterau hyn â rhaglen arolygu reolaidd yn dechrau yn 2013–14. Bydd y rhaglen arolygu hon yn gyfyngedig i gyfleusterau dalfeydd gwasanaeth yn y DU ond, yn fwy hirdymor, bydd yr NPM yn ceisio sicrhau bod pob cyfleuster o'r fath, gan gynnwys rhai ar safleoedd milwrol y DU ledled y byd, yn cael ei fonitro.

Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor

Rydym yn croesawu cynnig y llywodraeth i ymestyn OPCAT i Ynys Manaw, sy'n Dirioagaeth Ddibynnol ar y Goron Brydeinig. Mae monitro manau cadw eisoes yn digwydd ar Ynys Manaw ac mae'r llywodraeth yn bwriadu enwebu'r sefydliadau sy'n gyfrifol am hynny'n aelodau ychwanegol o'r NPM. Nawr, dylai'r llywodraeth ystyried pa swyddogaeth y dylai fod ganddi o ran gweithredu OPCAT ar gyfer Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron eraill, neu Dirioagaethau Tramor Prydain.

Mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at weithredu OPCAT yn llawn ac yn effeithiol yn y DU. Rydym yn annog y llywodraeth i gydnabod bod gweithredu OPCAT yn broses barhaus y dylid parhau i'w hadolygu, yn enwedig mewn manau cadw nad ydynt yn cael eu monitro'n rheolaidd gan gorff annibynnol â hawl statudol i gael mynediad.

Monitro manau cadw yn yr Alban

Bu datblygiad cadarnhaol sylweddol hefyd o ran ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn

yr Alban, sy'n ymweld â phobl a gedwir yn nalfeydd yr heddlu. Ni chafodd ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban eu henwebu ar wahân yn aelodau o NPM y DU; yn lle hynny, cawsant eu cynnwys yng ngwaith yr NPM drwy eu haelodaeth o'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, aelod o'r NPM sy'n gweithredu'n bennaf yng Nghymru a Lloegr. Er eu bod yn cael cymorth gan y llywodraeth, nid oedd statws statudol i waith ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban. Newidiwyd hyn gyda phasio Deddf Diwygio'r Heddlu a Thân (Yr Alban) 2012 gan Senedd yr Alban. Rhoddodd hon statws statudol i ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban ac amlinellodd hawliau mynediad ymwelwyr at bobl a gedwir yn nalfeydd yr heddlu. Roedd Deddf 2012 hefyd yn nodi'n benodol mai diben ymweld â dalfeydd yw bodloni:

'amcan OPCAT, sef, yr amcan o sefydlu system o ymweliadau ... â manau lle mae pobl wedi colli eu rhyddid er mwyn atal artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill.'

Dyma'r tro cyntaf i unrhyw gorff monitro yn y DU gyfeirio at OPCAT yn ei fframwaith statudol. Mae Deddf 2012 hefyd yn darparu ar gyfer ymweliadau â dalfeydd yr heddlu gan yr SPT – y gyntaf i wneud hynny hefyd. Cyfrannodd yr NPM at drafodaethau'r llywodraeth a'r senedd am ymwelwyr â dalfeydd, gan argymhell y dylid rhoi statws statudol iddynt. Felly, rydym yn falch o weld y datblygiadau deddfwriaethol hyn ac yn gobeithio yr enwebir ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban yn aelodau o'r NPM yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae'r NPM hefyd wedi cyfrannu at drafodaethau yn yr Alban am fonitro carchardai a swyddogaeth pwyllgorau ymweld â charchardai. Yn yr Alban, caiff pob carchar ei fonitro gan bwyllgor ymweld o wirfoddolwyr.

Ni chafodd y pwyllgorau hyn eu henwebu'n aelodau o'r NPM yn 2009 oherwydd, ar y pryd, roeddent yn destun adolygiad. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y pwyllgorau'n cyflawni swyddogaeth debyg i fyrddau monitro annibynnol yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, a bod pob un o'r rheini'n rhan o'r NPM.

Yn 2011-12, cyhoeddodd llywodraeth yr Alban eu bwriad i ddiddymu pwyllgorau ymweld â charchardai gan gynnig bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban yn cymryd eu swyddogaeth monitro. Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto, ond mae'r NPM wedi gofyn i lywodraeth yr Alban ystyried OPCAT wrth wneud penderfyniad, ac iddynt sicrhau bod unrhyw drefniadau monitro newydd yn cydymffurfio ag OPCAT.

Cysylltiadau allanol

Mae llawer o ddiddordeb o dramor o hyd yng ngwaith aelodau NPM y DU, ac eleni rydym wedi croesawu dirprwyaethau o amrywiaeth o wledydd, gan gynnwys Tsieina, Japan, De Korea ac Uganda. Mae'r dirprwyaethau hyn yn aml yn cynnwys swyddogion llywodraeth sy'n bwriadu cadarnhau neu weithredu OPCAT, cyrff anllywodraethol sy'n ymgyrchu dros ei gadarnhau yn eu gwlad eu hunain, neu gyrff NPM sydd newydd gael eu henwebu ac sy'n chwilio am wybodaeth am sut yr ydym ni'n monitro manau cadw yn y DU. Ym mis Gorffennaf 2011, cawsom ymweliad gan Awdurdod Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IPCA), un o'r pum sefydliad yn NPM Seland Newydd. Ac ystyried bod NPM aml-gorff fel rhai'r DU a Seland Newydd yn brin, roedd hwn yn gyfle defnyddiol i drafod heriau cyd-drefnu a buddion bod â sefydliadau'n aelodau sy'n arbenigwyr ar fonitro mathau penodol o fannau cadw. Gallodd IPCA hefyd gysgodu arolygiad o ddalfa'r heddlu yn Llundain gan HMIC a HMIP,

yn ogystal ag arsylwi gwaith ymwelwyr â dalfeydd yng Ngogledd Iwerddon

Rydym hefyd wedi parhau i gymryd rhan ym mhrosiect NPM Ewrop. Mae'r prosiect hwn wedi'i noddi gan Gyngor Ewrop ac mae wedi creu rhwydwaith gweithredol o gyrff NPM sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ym maes monitro manau cadw. Mae cynrychiolwyr yr NPM wedi mynychu gweithdai thematig am y ffyrdd gorau o gasglu tystiolaeth yn ystod ymweliadau, ac am fonitro ffyrdd o drin pobl agored i niwed a gedwir. Eleni, mae'r prosiect wedi canolbwyntio'n benodol ar fonitro pobl a gedwir yn ystod alltudiaethau, ac mae cyrff NPM o Ewrop wedi rhannu gwybodaeth am y ffyrdd gorau o fonitro alltudiaethau ac ystyried bod hwn yn faes gwaith newydd i lawer ohonom. Dechreuodd trafodaethau am y mater hwn mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan HMIP yn Llundain ym mis Gorffennaf 2011 lle'r oedd cynrychiolwyr NPM Ffrainc, yr Almaen, Sbaen a'r Swistir yn bresennol, ynghyd ag aelodau o Bwyllgor Atal Artaith (CPT) Ewrop a chyrff anllywodraethol. Parhaodd trafodaethau mewn dau weithdy arall yn 2012 (gweler adran 4 am fwy o wybodaeth).

Hefyd fel rhan o brosiect NPM Ewrop, gofynnwyd i gynrychiolwyr NPM y DU gymryd rhan mewn gweithdy yn Ukrain gyda'r bwriad o gefnogi gweithredu OPCAT ac enwebu NPM i Ukrain. Cafwyd llawer o ddiddordeb yn y model aml-gorff a fabwysiadwyd yn y DU, a bu ein cynrychiolwyr yn disgrifio buddion a heriau model o'r fath.

Mae aelodau NPM hefyd wedi ymgymryd â phrosiectau ad hoc i hybu cadarnhau OPCAT a rhannu gwybodaeth am arferion gorau o ran monitro manau cadw. Er enghraifft, ar gais gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, cytunodd HMIP i hyrwyddo cysyniad arolygu carchardai'n annibynnol i

swyddogion yn Rwsia, gan rannu gwybodaeth am fethodoleg arolygu a meini prawf seiliedig ar hawliau dynol.

Cyhoeddodd y CPT Ewropeaidd, un o gyrff Cyngor Ewrop â swyddogaeth debyg i un yr SPT, eu bod yn bwriadu ymweld â manau cadw yn y DU yn 2012. Er bod y CPT wedi ymweld â'r DU ar sawl achlysur yn y gorffennol, hwn oedd yr ymweliad cyntaf o'r fath ers enwebu'r NPM yn 2009. Dechreuodd aelodau'r NPM ddeialog â'r CPT, gan dynnu sylw at eu meysydd pryder allweddol, megis sefyllfa menywod yn y carchar.

Mae'r NPM yn ddiolchgar am y cymorth parhaus y maent wedi'i gael gan Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol (HRIC) Prifysgol Bryste. Mae HRIC yn cynnal cronfa ddata sy'n rhoi gwybodaeth am gylchoedd gwaith pob un o 18 aelod yr NPM a'r gwaith a wnânt – adnodd gwerthfawr ac ystyried maint a chymhlethdod yr NPM. Darparodd HRIC gymorth i rai seminarau NPM yn 2011-12 hefyd, gan gynnwys papurau briffio am faterion cysylltiedig ag OPCAT, yn ogystal â chymorth gweinyddol.

Argymhelliad

I Lywodraeth y DU

- 1 Dylai'r llywodraeth ystyried pa swyddogaeth y dylai fod ganddi o ran gweithredu OPCAT mewn Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor.

Adran tri Defnyddio grym a ffrwyno

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dweud yn aml bod troi at rym corfforol yn erbyn unigolyn a gedwir pan nad yw hynny'n gwbl angenrheidiol oherwydd ymddygiad yr unigolyn hwnnw'n lleihau urddas dynol. Felly, mae'n hanfodol bod defnyddio grym yn erbyn unigolyn a gedwir, neu ddefnyddio mesurau ffrwyno, yn cael ei wneud yn ofalus iawn a dan amgylchiadau cyfyngedig. Dim ond pan fo'n angenrheidiol, yn gymesur, fel dewis olaf ac yn unol â'r gyfraith y ceir defnyddio grym neu ffrwyno. Er y gall defnyddio grym a ffrwyno amrywio o un math o fan cadw i un arall, mae monitro grym a ffrwyno'n gydran allweddol o ymweliadau â phob man cadw gan aelodau'r NPM. Mae trafodaethau rhwng aelodau'r NPM yn rheolaidd wedi enwi grym a ffrwyno fel maes sy'n destun pryder. O ganlyniad, cymerodd aelodau'r NPM ran mewn gweithdy ym mis Mawrth 2012 i enwi pryderon cyffredin, rhannu gwybodaeth am y ffyrdd gorau o fonitro grym a ffrwyno a'r hyn i chwilio amdano yn ystod ymweliadau, a thynnu sylw at arfer da o ran rheoli pobl a gedwir a'u hymddygiad.⁷

Diffiniad

Mae diffiniadau amrywiol o rym neu ffrwyno wedi cael eu hawgrymu ond un peth sy'n glir yw bod y termau'n cynnwys amrywiaeth eang o gamau gweithredu neu gyfarpar sy'n cyfyngu ar ryddid unigolyn a gedwir i symud neu i arfer ewyllys rhydd. Mewn rhai mathau o fannau cadw, gellid ystyried bod defnyddio 'llaw i arwain' yn rym (er enghraifft, os yw aelod staff yn rhoi llaw ar benelin yr unigolyn a gedwir i'w arwain at leoliad penodol neu i'w symud oddi yno). Ar ben arall y sbectrwm, gall grym gynnwys defnyddio chwistrell analluogi neu arf sy'n rhoi sioc drydanol. Mae'r categorïau grym neu ffrwyno canlynol yn dangos yr amrywiaeth eang o gamau dan sylw (gall rhai camau berthyn i fwy nag un categori):

- corfforol – defnyddio grym corfforol heb gyfarpar
- mecanyddol – defnyddio cyfarpar megis gefynnau llaw neu ffrwynau coesau
- cemegol – defnyddio meddyginiaeth i ffrwyno unigolyn a gedwir
- amgylcheddol – er enghraifft, neilltuo unigolyn a gedwir i gyfyngu ar ei symudiadau
- technolegol – er enghraifft, defnyddio tag electronig, padiau gwasgedd neu larymau i dynnu sylw staff at symudiadau unigolyn a gedwir
- seicolegol – er enghraifft, dweud wrth rywun dro ar ôl tro, yn enwedig unigolyn agored i niwed, nad yw'n cael gwneud rhywbeth neu ei fod yn beryglus, neu gymryd rhywbeth sydd ei angen ar unigolyn a gedwir oddi arno, megis cymhorthyn cerdded.⁸

⁷ Mae'r NPM yn ddiolchgar i Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol (HRIC) Prifysgol Bryste am eu cymorth i gynnal ac ariannu'r gweithdy hwn.

⁸ Cafodd y categorïau hyn eu haddasu'n rhannol o gyhoeddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys, 'Let's talk about restraint' Hawliau, risgiau a chyfrifoldebau (2008).

Monitro defnyddio grym a ffrwyno

Wrth fonitro defnyddio grym a ffrwyno, mae aelodau'r NPM yn disgwyl gweld na chânt eu defnyddio heblaw pan fo'n angenrheidiol, yn gymesur, fel dewis olaf ac yn unol â'r gyfraith. Caiff aelodau ddefnyddio meini prawf monitro neu arolygu ychydig yn wahanol yn ystod eu hymweliadau ond dylid defnyddio rhai safonau a dderbynnir yn gyffredinol o ran grym a ffrwyno. Gall perthnasedd y safonau hyn amrywio gan ddibynnu ar y math o ffrwyno a ddefnyddir. Er enghraifft, ni fyddai disgwyl i unigolyn a gedwir gan yr heddlu gael ei weld gan ymarferydd meddygol cymwys bob tro y bydd heddwys yn defnyddio gefynnau llaw. Fodd bynnag, y safonau canlynol sy'n rhoi sail i'r hyn y mae aelodau'r NPM yn gyffredinol yn disgwyl ei weld wrth fonitro defnyddio grym a ffrwyno.

- Dylid gwneud pob ymdrech i dawelu'r sefyllfa neu reoli'r unigolyn a gedwir gan ddefnyddio'r dull lleiaf cyfyngol posibl.
- Dylai technegau ffrwyno fod yn ddiogel ac yn achrededig.
- Dylai fod gan sefydliadau a gwasanaethau bolisiau clir a hygyrch ar ddefnyddio grym neu ffrwyno.
- Dylai staff gael hyfforddiant ar dechnegau ffrwyno priodol a dylai'r hyfforddiant gael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- Dylai pobl a gedwir gael gweld ymarferwr meddygol cymwys ar ôl defnyddio grym neu ffrwyno. Dylid cofnodi anafiadau a darparu triniaeth.
- Dylai pobl a gedwir gael eu briffio ar ôl digwyddiadau lle defnyddiwyd grym neu ffrwyno a dylent allu cwyno os dymunant.
- Dylid cofnodi pob digwyddiad lle defnyddir grym neu ffrwyno. Dylai uwch reolwr graffu ar gofnodion i sicrhau y defnyddir grym neu ffrwyno'n gyfreithlon.

- Dylid monitro digwyddiadau (er enghraifft, ar lefel sefydliadol) i ganfod tueddiadau. Dylid rhoi sylw i dueddiadau.
- Dylid bod trefniadau arbennig ar gyfer defnyddio grym neu ffrwyno yn erbyn pobl a gedwir a all fod yn arbennig o agored i niwed, gan gynnwys plant, menywod (yn enwedig menywod beichiog), pobl ag anabledau a phobl hŷn.

Er bod y safonau hyn yn cynrychioli arfer da o ran defnyddio grym a ffrwyno, mae aelodau'r NPM yn aml yn gweld nad ydynt yn cael eu bodloni. Mae canfyddiadau'r aelodau NPM a ddisgrifir isod yn dangos yr amrywiaeth o gamau sy'n gyfystyr â grym a ffrwyno a welwyd yn ystod ymweliadau monitro, ac yn rhoi sylw i enghreifftiau o arfer da a gwael. Rydym wedi cyflwyno eu canfyddiadau yn ôl y math o fan cadw yr ymwelwyd ag ef. Er ein bod wedi tynnu sylw at waith rhai aelodau NPM yn unig yn ystod 2011-12, mae defnyddio grym a chyfyngiadau wedi bod, a bydd yn dal i fod, o ddi-ddordeb allweddol i holl aelodau'r NPM. Mae monitro grym a ffrwyno'n hanfodol i atal camdriniaeth pobl a gedwir, ac i ddiogelu eu hawliau a'u lles.

Plant a phobl ifanc mewn llety diogel

Ers blynyddoedd lawer, mae ffrwyno corfforol plant a phobl ifanc mewn llety diogel wedi bod yn fater uchel ei broffil, yn enwedig yng Nghymru a Lloegr, ar ôl i ddau blentyn farw o ganlyniad i ffrwyno yn 2004. Bu farw Gareth Myatt, 15 oed, wrth gael ei ffrwyno gan staff Canolfan Hyfforddi Ddiogel (STC) Rainsbrook. Canfuwyd Adam Rickwood, 14 oed, wedi'i grogi yn ei gell yn STC Hassockfield rai oriau ar ôl iddo gael ei ffrwyno. Canfu cwëst fod defnyddio grym anghyfreithlon wedi cyfrannu at benderfyniad Adam i'w ladd ei hun.

Wyth mlynedd yn ddiweddarach, mae ffrwyno corfforol plant mewn llety diogel yn parhau i fod yn fater dadleuol ac yn un y mae aelodau'r NPM yn ei fonitro'n agos. Yn benodol, mae Swyddfa'r Comisiynydd Plant (OCC), sydd â phŵer eang i fynd i unrhyw safle lle mae plant yn derbyn gofal, wedi ceisio hyrwyddo dulliau ffrwyno sy'n seiliedig ar hawliau plant

Yn 2011-12, cyhoeddodd OCC adroddiad ar les emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid.⁹ Roedd yr adroddiad hwn yn rhannol seiliedig ar gyfres o ymweliadau â sefydliadau lle caiff plant eu cadw (gan gynnwys STC, sefydliadau troseddwy'r ifanc (YOI), cartrefi plant a chyfleusterau iechyd meddwl diogel). Yn ystod yr ymweliadau hyn, canfu OCC duedd gan staff i ddiybennu ar reolaeth gorfforol i reoli risg ac ymdrin ag ymddygiad heriol, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu perthynas gadarnhaol â phlant. Nododd OCC anghysonderau hefyd rhwng sefydliadau o ran gweithdrefnau ac arferion ffrwyno, gydag amrywiad o ran pa mor aml y'i defnyddiwyd. Dim mewn ond dau o'r 11 o sefydliadau yr ymwelwyd â hwy y dywedodd plant fod ffrwyno'n beth prin; ym mhob un arall, roedd plant yn cyfeirio at ffrwyno fel profiad dyddiol. Mewn un STC, nododd OCC fod cynnydd cyflym yn nifer yr achosion o ffrwyno wedi cael ei achosi gan newid rotâu staff a olygodd fod pobl ifanc yn cael eu cloi yn eu celloedd am gyfnod hwy.

'Mae'n digwydd bob dydd, dair neu bedair gwaith. Weithiau maen nhw'n ei haeddu ond mae rhai [staff] jyst yn ei wneud achos does ganddyn nhw ddim amynedd sortio pethau.'

Bachgen 15 oed mewn canolfan hyfforddi ddiogel

Roedd ffrwyno'n digwydd yn llai aml mewn sefydliadau bach â chymarebau uchel o staff i blant a lle'r oedd y staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael eu cefnogi. Yn y sefydliadau hyn, dywedodd plant eu bod yn teimlo bod rhywun yn gofalu amdanynt.

Yn 2011-12, cyflwynodd OCC hefyd dystiolaeth i Gyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig cyn adolygiad y Cyngor i weld i ba raddau y mae'r DU wedi cyflawni eu hymrwymadau o ran hawliau dynol. Argymhelliad OCC oedd y dylai'r gyfraith ddarparu na cheir defnyddio ffrwyno heblaw i atal niwed i'r plentyn neu eraill. Argymhellwyd hefyd y dylid gwahardd defnyddio poen yn fwriadol fel techneg ffrwyno. Mae HMIP wedi atseinio'r argymhelliad hwn, sy'n dilyn sylwadau gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylai awdurdodau:

'... leihau'r angen i ddefnyddio ffrwyno a sicrhau bod unrhyw ddulliau a ddefnyddir yn ddiogel ac yn gymesur i'r sefyllfa ac nad ydynt yn cynnwys achosi poen yn fwriadol fel math o reolaeth.'¹⁰

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fanylion system newydd o ffrwyno corfforol i'w defnyddio mewn lleoliadau STC ac YOI yng Nghymru a Lloegr. Er nad yw'n gwahardd technegau cydymffurfiad poen, mae OCC

⁹ OCC, *'I think I must have been born bad'. Emotional wellbeing and mental health of children and young people in the youth justice system* (Mehefin 2011).

¹⁰ Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Sylw Cyffredinol rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei amddiffyn rhag cosbau corfforol a mathau creulon neu ddiraddiol eraill o gosbau (erthyglau 19; 28, para. 2; a 37, inter alia) (2006) ym mharagraff 15.

wedi croesawu ffocws y system newydd ar dawelu sefyllfaoedd a defnyddio ffrwyno fel dewis olaf. Bydd aelodau perthnasol yr NPM yn monitro sut y caiff y system ffrwyno newydd ei rhoi ar waith yn y flwyddyn sydd i ddod.

Er mai yng Nghymru a Lloegr y bu defnyddio grym a ffrwyno mewn sefydliadau diogel i blant yn fwyaf dadleuol, caiff ei fonitro'n agos hefyd gan aelodau perthnasol o'r NPM sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Mewn arolygiad ar y cyd o Ganolfan Cyfiawnder Ieuencid Woodlands yn 2011, er enghraifft, bu i Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI) a'r Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio (RQIA) nodi gostyngiad sylweddol mewn defnyddio grym a chanfod systemau effeithiol i gofnodi digwyddiadau lle defnyddiwyd ffrwyno, eu dadansoddi a dysgu ohonynt. Canfu RQIA hefyd ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau lle defnyddiwyd ffrwyno wrth arolygu Canolfan Gofal Ddiogel Lakewood (cartref diogel i blant). Digwyddodd y gostyngiad hwn o ganlyniad i gamau i weithredu argymhellion blaenorol gan RQIA, gan gynnwys sefydlu grŵp rheoli ymddygiad wythnosol i ddadansoddi pob digwyddiad lle defnyddiwyd ffrwyno, rhoi sylw i unrhyw faterion yn codi o'r digwyddiadau a dysgu ohonynt. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol i staff hefyd.

Lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Mewn rhai lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol lle nad yw preswylwyr yn gyfreithiol wedi'u cadw, gallai'r cyfyngiadau a osodir ar ryddid y preswylwyr fod yn gyfystyr â chaethiwo de facto. Bydd aelodau'r NPM yn archwilio'r mater hwn ymhellach yn

2012–13. Mae'r canfyddiadau o waith 2011–12 a ddisgrifir isod yn cynnwys achosion o ddefnyddio grym a ffrwyno mewn manau cadw, ac achosion o gyfyngu ar ryddid mewn lleoliadau preswyl nad ydynt yn lleoliadau diogel a all, gyda'i gilydd, fod yn gyfystyr â cholli rhyddid.

Yn yr Alban, mae Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) yn diogelu hawliau a lles pawb â salwch meddwl, anabledd dysgu neu gyflwr cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymweliadau rheolaidd i fonitro'r driniaeth a roddir i bobl a gedwir dan ddeddf iechyd meddwl. Mae hefyd yn cynnwys ymweld â lleoliadau preswyl eraill lle gall fod cyfyngiad ar ryddid pobl o ganlyniad i ddefnyddio grym neu ffrwyno.

Yn 2011–12, cynhaliodd MWCS gyfres o ymweliadau â phobl ag anableddau dysgu yng ngofal ysbytai i asesu defnyddio ffrwyno dros gyfnod o chwe mis. O'r 113 o bobl yr aseswyd eu gofal a'u triniaeth, bu angen rhyw lefel o ymyriad corfforol ar 20 ohonynt. Bu angen ffrwyno ar y llawr ar dri ohonynt a bu angen ffrwyno mewn sedd, neu ryw faint o arweiniad o un man i'r llall, ar y gweddill. Roedd chwech o'r 20 yn cael eu ffrwyno'n rheolaidd (o unwaith bob pythefnos i unwaith bob dydd). Canfu MWCS fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant priodol ond roeddent yn pryderu am un digwyddiad lle defnyddiwyd technegau ffrwyno amhriodol, ac am un uned nad oedd yn gallu dod o hyd i'w chofnod o ffrwyno. Yn yr achosion hynny, mae MWCS wedi cymryd camau dilynol.¹¹

Mewn adolygiad o bobl â salwch meddwl difrifol a pharhaus, roedd MWCS yn pryderu am leoli pobl â gwahanol anghenion diogelwch ar yr un ward. Canlyniad hyn oedd amgylchedd diangen o ddiogel i

¹¹ MWCS, *Themed visit to hospital units for the assessment and treatment of people with learning disabilities* (Gorffennaf 2012).

rai o'r cleifion. Gwnaeth MWCS lawer o argymhellion gyda'r nod o ddefnyddio cyn lleied â phosibl o rym i sicrhau diogelwch unigolion.¹²

Yn ystod ymchwiliad i ofal a thriniaeth menyw â dementia, canfu MWCS fod ffrwyno cemegol wedi'i ddefnyddio'n amhriodol. Tra'r oedd y fenyw'n aros mewn ysbyty am gyfnod o 12 diwrnod, cafodd hylifau drwy ddiferwr ond dim maethiad. Achosodd hyn fwy o aflonyddwch a thralod iddi; ymateb yr ysbyty oedd ei llonyddu dros 100 gwaith â phigiadau neu feddyginiaeth reffrol. Roedd MWCS o'r farn y gallai hyn fod yn gyfystyr â thriniaeth ddiraddiol.¹³

Dangosodd ymchwiliad arall sut y gall hefyd fod yn annynol i beidio â defnyddio grym. Roedd menyw â niwed i'w hymennydd oherwydd alcohol yn gwrthod ymyriadau meddygol er gwaethaf amheuan bod ganddi ganser ceg y groth. Pan aeth ei salwch yn angheuol, cafodd redlif mawr gwaedlyd o'i gwain, a chaniataodd staff ei chartref gofal iddi wrthod cael ei glanhau a chael lladdwr poen. Barn MWCS oedd bod hyn wedi peri anurddas a thralod sylweddol i'r fenyw – roeddent yn fodlon bod ei phenderfyniad i beidio â chael triniaeth feddygol wedi cael ei barchu, ond yn teimlo y dylai fod staff y cartref gofal wedi diystyru ei gwrthodiad i gael gofal wedi hynny er mwyn cynnal ei hurddas.¹⁴ I ymdrin â'r risg y gallai staff ddefnyddio grym gormodol, neu beidio â defnyddio grym rhesymol, cyhoeddodd MWCS ganllaw arfer da am ddefnyddio grym i ddarparu gofal iechyd corfforol.¹⁵

Yng Ngogledd Iwerddon, mae RQIA yn monitro lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rhai lle caiff pobl

eu cadw, neu lle gallant gael eu cadw. Yn ystod arolygiadau, canfu RQIA amrywiaeth o ddulliau ffrwyno'n cael eu defnyddio, gan gynnwys defnydd amhriodol o dawelyddion cyflym, rheiliau gwely, strapiau glin ar seddi arbenigol, sblintiau braich a dillad cysgu arbenigol. Roedd yn amlwg i RQIA bod staff rhai lleoliadau'n defnyddio dulliau ffrwyno heb hyfforddiant digonol a bod y polisïau i reoli defnyddio ymyriadau corfforol yn annigonol, wedi dyddio neu'n gwbl absennol. Dywedodd llawer o gleifion a gyfwelwyd gan RQIA eu bod wedi cael anafiadau wrth gael eu ffrwyno.

Mewn llawer o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol nad ydynt yn rhai diogel yr ymwelodd RQIA â hwy, canfuwyd cyfyngiadau amgylcheddol a allai fod yn gyfystyr â chaethiwo de facto. Roedd y rhain yn cynnwys drysau mewnol wedi'u cloi, drysau allanol a gatiau wedi'u cloi, a neilltuo unigolion fel dull rheoli ymddygiad. Roedd RQIA yn pryderu am y canlynol:

- diffyg dealltwriaeth ymysg darparwyr gwasanaethau bod yr arferion yn gyfyngol
- methiannau i asesu effaith cyfyngiadau cyffredinol y gwasanaeth ar ddefnyddwyr gwasanaeth unigol
- nid oedd llawer o wasanaethau'n gallu disgrifio'r prosesau asesu a'r cytundebau â defnyddwyr gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr o ran y cyfyngiadau hyn
- absenoldeb mesurau diogelu i fonitro pa mor briodol oedd cyfyngiadau.

O ganlyniad i'r arolygiadau hyn, cymerodd RQIA gamau gorfodi yn erbyn llawer o ddarparwyr gofal. Ym mhob achos, mae hyn wedi arwain at wella ansawdd gofal.

¹² MWCS, *Left Behind* (Ionawr 2012).

¹³ MWCS, *Starved of Care: Investigation into the care and treatment of 'Mrs V'* (Mai 2011).

¹⁴ MWCS, *Ms R Report: Challenges in providing healthcare for an individual who cannot understand or consent* (Mai 2012).

¹⁵ MWCS, *Right to Treat?* (Gorffennaf 2011).

Astudiaeth achos

Canfu RQIA glaf gwirfoddol yn gwisgo sblintiau braich mewn ward arosiadau hir i oedolion ag anableddau dysgu. Diben y sblintiau oedd lleihau'r risg y byddai'n niweidio ei hun. Roedd RQIA yn pryderu nad oedd cofnodion gofal y claf yn dangos unrhyw ystyriaeth i ddefnyddio mesurau llai cyfyngol i atal hunan-niwed. Gwelwyd bod y claf yn gwisgo'r sblintiau drwy'r amser, er bod therapydd galwedigaethol wedi argymhell na ddylai hyn ddigwydd.

Yn ystod un arolygiad, canfu RQIA fod cleifion gwirfoddol ag anableddau dysgu'n colli eu rhyddid gan fod eu ward yn cael ei chadw dan glo. Roedd y staff hefyd yn ffrwyno cleifion yn rheolaidd ac yn gwneud hynny heb hyfforddiant na chanllawiau gweithdrefnol digonol. Nid oedd y cleifion yn cael llawer o gysylltiad â'u teuluoedd ac nid oedd llawer o gyfraniad gan wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Canfu RQIA nad oedd llawer o drefniadau diogelu i hybu hawliau'r cleifion: roedd eu hawliau i ryddid, diogelwch, annibyniaeth ac urddas wedi'u cyfaddawdu'n sylweddol.

Ar y llaw arall, canfu RQIA arfer da mewn uned gofal dwys ranbarthol i oedolion ag anableddau dysgu. Canfu dystiolaeth o hyfforddiant achrededig rheolaidd i staff, ac ymrwymiad i gofnodi ac archwilio'n fanwl unrhyw ddigwyddiad yn cynnwys defnyddio grym a ffrwyno.

Dalfeydd yr heddlu

Caiff dalfeydd yr heddlu ledled y DU eu monitro ar ddwy lefel – gan arolygiaeth broffesiynol a gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Yn 2011-12, parhaodd HMIC a HMIP â'u rhaglen arolygu ar y cyd o gyfleusterau dalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnwys asesiad

o ddefnyddio a rheoli dulliau ffrwyno. Yn gyffredinol, gwelodd HMIC/HMIP fod technegau tawelu'n cael eu defnyddio'n dda, gan leihau'r angen i ddefnyddio dulliau ffrwyno. Pan gâi dulliau ffrwyno eu defnyddio, gwneid hynny'n gymesur, a byddai'r staff yn parhau i gyfathrebu â'r bobl a gedwir i egluro beth oedd yn digwydd gyda'r nod o dawelu'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, yn ymarferol, cafwyd amrywiadau. Yn Swydd Nottingham, cyfarfu arolygwyr â heddweision a ddywedodd na fyddent yn defnyddio gefynnau llaw oni bai bod hynny'n gymesur ac yn angenrheidiol. Cadarnhawyd hyn drwy ddadansoddi cofnodion y ddalfa, a ddangosodd nad oedd llawer o bobl a gedwir yn cyrraedd dalfeydd mewn gefynnau llaw. Ar y llaw arall, yn Northumbria, dywedodd staff wrth arolygwyr mai polisi'r heddlu oedd y dylid rhoi pawb a gâi ei arestio mewn gefynnau llaw. Dywedodd llawer o heddweision y byddent yn gwneud hyn heb ystyried beth oedd y trosedd honedig nac i ba raddau yr oedd yr unigolyn a arestiwyd yn cydymffurfio. Golygodd hyn fod plant, menywod beichiog a phobl a oedd yn fodlon cydymffurfio wedi cael eu rhoi mewn gefynnau llaw.

Er bod cofnodion dalfa'r bobl a gadwyd yn nodi achosion unigol o ddefnyddio grym, un argymhelliad a ailadroddwyd oedd y dylai'r heddlu gasglu data defnyddio grym. Heb ddata o'r fath, nid oedd yr heddlu'n gallu canfod tueddiadau o ran defnyddio grym i roi sail i bolisiau, arferion a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r methiant hwn i gasglu data'n dilyn dileu gofyniad gan y Swyddfa Gartref i heddluoedd gyflwyno ffurflenni misol ar ddefnyddio grym. Felly, mae'n anodd ffurfio cymariaethau rhwng heddluoedd neu lunio darlun cenedlaethol o sut y defnyddir grym yn nalfeydd yr heddlu.

Yng ngoleuni hyn, estynnodd y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa wahoddiad i'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) i fonitro'r grym sy'n cael ei ddefnyddio yn nalfeydd yr heddlu drwy archwilio cofnodion dalfeydd unigol. Bwriad yr ymwelwyr â dalfeydd oedd cyflawni'r gwaith hwn yn 2012-13 a chyflwyno eu canfyddiadau i'r Bwrdd Gweinidogol yn 2013. Byddant yn edrych ar y math o rym a ddefnyddiwyd, ei hyd ac ar ba adeg y'i defnyddiwyd yn ystod y broses gadw, y driniaeth feddygol a ddarparwyd ar ôl defnyddio grym, a sut y cofnodwyd y digwyddiad.

Carchardai

Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaeth CJINI a'r Byrddau Monitro Annibynnol (IMBNI) argymhellion cysylltiedig â ffrwyno eleni. Ar gyfer y menywod a'r troseddwyr gwrywaidd ifanc a gedwir yn Hydebank Wood, canfu CJINI nad oedd argymhellion blaenorol y dylai'r holl staff gael hyfforddiant diweddarau ar dechnegau rheoli a ffrwyno wedi cael eu bodloni. Dim ond ychydig llai na hanner y staff oedd wedi cael hyfforddiant diweddarau yn y 12 mis blaenorol. Roedd y methiant i hyfforddi digon o staff benywaidd wedi arwain at sefyllfa annerbyniol lle bu swyddog gwrywaidd yn ymwneud â noeth-chwilio menyw a oedd yn cael ei ffrwyno. Fodd bynnag, roedd argymhellion blaenorol eraill CJINI wedi cael eu bodloni, ac roedd trefniadau rheoli wedi gwella.

Mae IMB Canolfan Troseddwyr Ifanc Hydebank Wood wedi mynegi pryder am ffrwyno amhriodol carcharorion ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl o hunan-niweidio. Roedd yr IMB yn teimlo y gallai ffrwyno carcharorion o'r fath waethygu eu sefyllfa, ac argymhellwyd mai dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid ffrwyno carcharorion mewn perygl.

Yng Nghymru a Lloegr, gwnaeth HMIP 58 o argymhellion cysylltiedig â ffrwyno yn eu harolygiadau llawn o 32 o garchardai i oedolion yn 2011-12. Yn eu harolygiadau dilynol yn yr un cyfnod, roedd dros chwarter yr argymhellion blaenorol cysylltiedig â ffrwyno heb gael eu bodloni eto. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ymwneud â rheoli ffrwyno, yn hytrach na'i ddefnyddio'n ymarferol. Roedd carchardai'n cael eu hannog i wella arferion cofnodi a defnyddio data'n well, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau i asesu, er enghraifft, a ddefnyddiwyd grym yn anghymesur yn erbyn carcharorion o gefndiroedd penodol. Roedd angen hefyd i uwch reolwyr sicrhau ansawdd dogfennau ffrwyno.

Canfu HMIP wrth arolygu Send fod un fenyw wedi aros mewn gefynnau llaw â swyddog benywaidd yn ystod apwyntiad ysbyty. Bu iddynt aros yn y gefynnau llaw drwy gydol archwiliad manwl a thra'r oedd y fenyw'n tynnu ei dillad. Dywedodd hi fod y gefynnau llaw wedi gwneud yr holl broses yn drallodus ac yn anodd iawn. Canfu HMIP fod hyn yn anghymesur gan nad oedd yn seiliedig ar asesiad o risg unigol a'i fod yn groes i hawliau'r fenyw i breifatrwydd ac urddas.

Fodd bynnag, canfu HMIP rai enghreifftiau o arfer da o ran ffrwyno mewn carchardai. Er enghraifft, yn Onley, roedd carcharorion yn cael eu briffio'n ffurfiol ar ôl unrhyw ddigwyddiad lle defnyddiwyd grym yn eu herbyn. Yn Lowdham Grange, roedd rheolwyr yn cludo recordyddion fideo bach cludadwy i recordio digwyddiadau digymell o ddefnyddio grym (mae HMIP yn disgwyl i bob achos o ddefnyddio grym sydd wedi'i gynllunio gael ei recordio ar fideo).

Adran pedwar Hebrwng pobl a gedwir

Yn ystod cyfnod cadw, gellir symud unigolyn a gedwir o un man cadw i un arall. Er enghraifft, efallai y caiff unigolyn ei gadw'n gyntaf mewn dalfa heddlu, cyn ymddangos yn y llys a chael ei remandio i'r carchar; gellir symud unigolyn o un carchar i un arall; neu gellir trosglwyddo unigolyn o'r carchar i'r ysbyty ar gyfer apwyntiad. Tra mae'r unigolyn yn cael ei hebrwng o un man i fan arall, mae'n dal i fod wedi colli ei ryddid a dan reolaeth y wlad. Mae Erthygl 4 OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol bod NPM yn ymweld ag unrhyw fan lle mae pobl wedi colli eu rhyddid, neu lle gallai hynny ddigwydd. Disgrifir colli rhyddid fel 'unrhyw fath o gadw' ac nid yw wedi'i gyfyngu i fan cadw sefydlog, megis carchar neu gyfleuster seiciatrig diogel. Felly, dylai'r cyfnodau pan fydd unigolyn a gedwir yn cael ei hebrwng fod yn destun monitro annibynnol a rheolaidd.

Mae llawer o aelodau'r NPM yn gwneud gwaith monitro o'r fath, ac mae gan rai ddyletswydd statudol benodol i wneud hynny. Er enghraifft, prif swyddogaeth HMIPS yw arolygu carchardai yn yr Alban, ond mae ganddynt ddyletswydd hefyd i 'archwilio'r amodau lle caiff carcharorion eu cludo neu eu dal yn unol â threfniadau hebrwng carcharorion'.¹⁶ Mae swyddogaeth HMIP yn cynnwys monitro pobl a gedwir dan gyfraith mewnfudo, ac mae ganddynt ddyletswydd benodol i fonitro sut y caiff y bobl hyn eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, pan gânt eu hebrwng.

Gall pobl a gedwir fod yn arbennig o agored i niwed pan gânt eu hebrwng i, o neu rhwng manau cadw. Rhaid i'r awdurdodau hebrwng daro cydbwysedd rhwng cludo pobl a gedwir yn ddiogel, a bod yn ddyngar a'u cadw hwy'n ddiogel heb droi at fesurau diogelwch anghymesur.

Gan ystyried y gweithgareddau monitro a gyflawnwyd gan aelodau'r NPM yn 2011-12, rydym wedi dewis canolbwyntio ar ddau fater allweddol yn ymwneud â hebrwng:

- hebrwng carcharorion rhwng manau cadw yn y system cyfiawnder troseddol yn yr Alban ac yng Nghymru a Lloegr¹⁷
- hebrwng pobl a gedwir sy'n cael eu symud o'r DU ('hebryngiadau tramor').

Hebrwng yn y system cyfiawnder troseddol

Mae hebrwng y rhan fwyaf o bobl a gedwir yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei gyflawni ar ran y wlad gan gontractwyr preifat, yn yr Alban ac yng Nghymru a Lloegr. Yn y naill awdurdodaeth a'r llall, cafodd contractau hebrwng eu tendro o'r newydd a'u dyrannu i ddarparwyr newydd yn ystod 2011-12.

Yr Alban

Yn ystod 2011-12, cynhaliodd HMIPS arolygiad o'r amodau lle cafodd carcharorion eu cludo a'u dal mewn llysoedd sirol a llysoedd ynadon heddwch ledled yr Alban. Roedd hyn yn dilyn arolygiad blaenorol o'r amodau lle cafodd carcharorion eu hebrwng, a gyhoeddwyd yn 2007. Yr hebryngiadau a gafodd eu harolygu oedd symudiadau o'r llys i'r carchar, ac o'r carchar i'r llys.

Wrth arolygu hebryngiadau carcharorion, cafodd HMIPS eu harwain gan feini prawf arolygu'n ymwneud â diogelwch ac â chwarteisi, dyngarwch a pharch at hawliau cyfreithiol:

- **Diogelwch:** Dylai'r carcharor unigol fod yn ddiogel rhag niwed gan eraill, yn ddiogel rhag hunan-niwed a, chyn belled â phosibl, dylid ei reoli mewn ffordd sy'n asesu unrhyw berygl y mae'n ei achosi i eraill ac yn sicrhau bod ymyriadau priodol ar gael i ymateb i'r peryglon hynny.

¹⁶ Adran 7(2) Deddf Carchardai (Yr Alban) 1989 fel y'i diwygiwyd gan adran 103(2)(b) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

¹⁷ Caiff hebryngiadau yn y system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Iwerddon eu harolygu gan CJINI. Cyhoeddwyd eu hadroddiad arolygu diweddaraf ym mis Hydref 2010 ac fe'i dyfynnwyd yn ail adroddiad blynyddol yr NPM ar gyfer 2010-11.²⁷

- **Cwrteisi, dyngarwch a pharch at hawliau cyfreithiol:** Dylid trin carcharorion unigol mewn modd sy'n cynnal eu hawliau dynol, yn cynnal urddas dynol, yn parchu unigoliaeth ac yn cefnogi cysylltiadau teuluol. Dylid trin carcharorion yn deg ac yn gyson, ac ni ddylent gael eu trin yn groes i'r gyfraith a Rheolaŵr Carchar. Dylid cadw carcharorion mewn amodau glân a hylan sy'n hybu hunan-barch

Yn ystod yr arolygiad, un ffynhonnell tystiolaeth oedd arolwg lle gofynnwyd i garcharorion pa mor dda oedd y berthynas rhyngddynt â staff hebrwng. Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y berthynas rhwng y staff a'r carcharorion yn gyffredinol dda: dywedodd 80% o'r carcharorion fod ganddynt berthynas 'iawn', 'eithaf da' neu 'dda iawn' â'r staff, a dywedodd 12% fod ganddynt berthynas 'eithaf gwael' neu 'wael iawn'.

Nododd HMIPS fod eu harolygiad wedi cael ei gynnal yn ystod cyfnod pan oedd gwasanaethau hebrwng yn mynd drwy newid. O 11 Ionawr 2012 ymlaen, darparwyd hebryngiadau gan G4S (a gymerodd le Reliance Custodial Services, y darparwr blaenorol). Cafodd y broses o dendro o'r newydd effaith ar amodau i garcharorion. Roedd Reliance wedi cadw cerbydau hyn yn hytrach na chael rhai newydd yn eu lle, ac roedd risg fawr y byddai'r cerbydau'n methu. Mae cerbydau newydd wedi'u cyflwyno i'r gwasanaeth ers i'r contract newydd gael ei ddyfarnu.

Rhoddodd HMIPS glod i'r hyfforddiant cymorth cyntaf rheolaidd i staff hebrwng, gan nodi eu bod yn cael hyfforddiant sefydlu safonol. Roedd hyn yn arfer da ond nid oedd wedi'i fabwysiadu ledled yr Alban eto.

Canfu HMIPS fod y darparwyr wedi rheoli nifer uchel yr hebryngiadau ar draws canol

yr Alban yn dda, ond bod hebryngiadau'n ymwneud â llysoedd anghysbell yn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd yn fwy o her. Fodd bynnag, cyflawnwyd hyn heb effaith anffafriol sylweddol ar garcharorion.

Wrth arolygu hebryngiadau, ac wrth arolygu carchardai'n rheolaidd, nododd HMIPS y pellteroedd hynod yr oedd rhai carcharorion yn eu teithio i ymddangos yn y llys. Roedd hyn yn arbennig o wir am garcharorion sy'n fenywod; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu dal yn Cornton Vale yn Stirling ond gallant orfod ymddangos mewn llysoedd ledled yr Alban. Argymhellodd HMIPS y dylai Gwasanaeth Carchardai'r Alban a Gwasanaeth Llysoedd yr Alban gydweithio i gyflwyno cysylltiadau fideo-gynadledda rhwng carchardai a llysoedd, yn enwedig llysoedd anghysbell. Bydd cysylltiadau fideo'n golygu bod llai o angen i garcharorion deithio pellteroedd maith am ymddangosiadau byr iawn mewn llysoedd, neu ymddangosiadau sy'n gallu cael eu canslo ar fyr rybudd.

Cafwyd pryder am y posibilrwydd i'r cyhoedd weld carcharorion wrth iddynt gyrraedd rhai llysoedd neu ar eu ffordd o'u cell i'r ystafell llys. Er bod hyn wedi'i reoli'n dda gan fwyaf, roedd perygl o hyd i ddiogelwch carcharorion a staff hebrwng oherwydd ymyrraeth gan y cyhoedd. Argymhellodd HMIPS y dylid cymryd camau brys i roi sylw i'r risgiau hyn yn llysoedd Arbroath a Tain yn enwedig.

Cymru a Lloegr

Fel yn yr Alban, cafwyd newidiadau mawr i'r trefniadau i hebrwng carcharorion i'r llys ac oddi yno, ac wrth drosglwyddo rhwng carchardai, yng Nghymru a Lloegr yn 2011-12. O 29 Awst 2011 ymlaen, dyfarnwyd contractau hebrwng carcharorion i ddau ddarparwr newydd – Serco Wincanton sy'n cyflenwi hebryngiadau i Lundain a dwyrain Lloegr, a GEOAmey sy'n cyflenwi Cymru a gweddill

Lloegr. Mae'r contractau hyn yn darparu ar gyfer hebrwng tuag 80,000 o garcharorion i'r llys bob mis.¹⁸ Mae tri aelod o'r NPM – HMIP, IMB a'r Comisiynydd Plant – wedi sôn am anawsterau wrth roi'r contractau newydd ar waith, ac am bryderon cyffredinol am hebryngiadau.

Yn nyddiau cynnar y contractau newydd, cafodd y naill gontractwr a'r llall anawsterau o ran staffio, amserlenni cerbydau a'u technoleg. Canlyniad hyn oedd bod carcharorion yn hwyr i gyrraedd y carchar o'r llys ac, yn enwedig yn Llundain, yn cael eu 'cloi allan' a'u dargyfeirio i garchardai eraill neu i ddalfeydd yr heddlu. Hyd yn oed pan gâi carcharorion eu derbyn i garchar ar ôl cyrraedd yn hwyr, roedd hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar weithdrefnau derbyn a noson gyntaf y sefydliad. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn gan HMIP a hefyd gan yr IMB yn, er enghraifft, Wormwood Scrubs, Nottingham a Norwich. Dan y contractau newydd, roedd cerbydau hebrwng yn codi carcharorion o nifer o fannau cyn mynd â hwy i'r llys neu i'r carchar, gan olygu bod y carcharor a godwyd gyntaf yn aml yn wynebu taith hirfaith. Er gwaethaf y teithiau hir, nid oedd carcharorion bob amser yn cael cyfleoedd i fynd i'r toiled. Nododd IMB Wormwood Scrubs hefyd, er bod carcharorion yn cael dŵr yfed, eu bod yn cael eu gadael heb fwyd am gyfnodau rhy hir yn ystod teithiau hirfaith iawn.

Er bod y rhan fwyaf o garcharorion yn dweud bod eu profiad o drefniadau hebrwng yn rhesymol, dywedasant hefyd eu bod wedi treulio cyfnodau hir mewn celloedd llys neu'n teithio cyn cyrraedd eu carchar. Yn ystod arolygiadau o garchardai lleol, canfu HMIP oediadau wrth symud carcharorion drwy'r dderbynfa gan fod grwpiau mawr yn cyrraedd gyda'i gilydd yn hwyr yn y prynhawn.

Canfu HMIP hefyd weithdrefnau diogelwch anghymesur yn ystod hebryngiadau ac wrth

gyrraedd carchardai. Er enghraifft, roedd carcharorion yn trosglwyddo i Hatfield, sy'n garchar agored, yn cael eu cludo mewn faniau diogel. Roedd rhai carcharorion yn cael eu rhoi mewn gefynnau llaw wrth ddod allan o gerbydau a cherdded y pellter byr i'r dderbynfa: roedd hyn yn anghymesur i'r risg yr oeddent yn ei beri.

Roedd IMB Wormwood Scrubs yn pryderu bod y contractwr wedi canslo trosglwyddiadau rhwng carchardai ar y funud olaf. Roedd carcharorion yn cael eu dal yn y dderbynfa, yn barod i gael eu trosglwyddo, yn gynnar yn y bore ond yn gorfod dychwelyd i'w celloedd yn y prynhawn. Roedd hyn yn amlwg yn annifyr i garcharorion a staff. Disgrifiodd yr IMB lleol y gwasanaeth hebrwng carcharorion yn 'anwadal' yn Norwich ac yn 'wael iawn' yn Lewes.

Roedd yn destun pryder penodol bod plant a phobl ifanc yn cyrraedd eu sefydliad yn hwyr gyda'r nos pan nad oedd posibl cyflawni prosesau ymsefydlu priodol a phan nad oedd pryddau bwyd poeth ar gael yn aml. Gallent fod wedi cyrraedd yn hwyr oherwydd casgliadau hwyr o'r llys, neu oherwydd bod cerbydau wedi gollwng oedolion yn gyntaf gan adael teithiau hwy i blant. Roedd yr IMB yn feirniadol o gyraeddiadau hwyr o'r fath, yn enwedig i blant a oedd yn mynd i'r carchar am y tro cyntaf.

Roedd aelodau'r NPM a oedd yn monitro hebryngiadau'n pryderu bod y contractau newydd yn caniatáu i fenywod a phlant dan 18 gael eu cludo yn yr un cerbydau â dynion. Er bod protocolau'n bodoli i wahanu'r grwpiau o fewn cerbydau, canfu HMIP nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol. Dywedodd staff hebrwng, hyd yn oed, fod cymysgu dynion a menywod ar yr un fan yn achosi problemau. Nid oedd parwydydd symudadwy i rannu cerbydau i adrannau ar wahân i ddynion, menywod a phlant yn effeithiol, ac roeddent yn amharu ar

¹⁸ Caiff carcharorion Categori A eu hebrwng gan y Gwasanaeth Carchardai ei hun, nid gan ddarparwr preifat.

allu'r staff i oruchwyllo'r holl garcharorion. Roedd y pryderon hyn am gludo dynion, menywod a phlant gyda'i gilydd yn yr un cerbyd yn atseinio pryderon gan CJINI am hebrwng carcharorion yng Ngogledd Iwerddon.

Mae aelodau'r NPM yn credu y dylai plant dan 18 oed, menywod a dynion gael eu cludo ar wahân. Mae hyn yn cyd-fynd â safonau hawliau dynol rhyngwladol ac yn seiliedig hefyd ar ein profiad monitro ein hunain bod gwahanu menywod a phlant oddi wrth ddynton yn hanfodol i sicrhau diogelwch a lles pob carcharor.¹⁹

Cofnodion hebrwng unigolion

Pan gaiff carcharor ei hebrwng rhwng gorsafoedd heddlu, llysoedd, carchardai ac ysbytai, mae'n hanfodol bod y bobl sy'n gyfrifol am y carcharor yn ymwybodol o unrhyw beryglon neu fregusrwydd. Caiff peryglon a bregusrwydd eu hasesu cyn unrhyw hebryngiad a dylid eu cofnodi ar gofnod hebrwng unigolyn (PER). Mae'r PER yn teithio i bobman gyda'r carcharor a gall gynnwys gwybodaeth allweddol amdano/ amdani, gan gynnwys y perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad. Felly, un elfen ydyw mewn amrediad o brosesau y mae'r wlad yn eu defnyddio i gyflawni ei dyletswydd gofal i bobl sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad.

Ym mis Awst 2011, gofynnodd y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa²⁰ i HMIP arolygu defnyddio ffurflenni PER ar ôl pryderon nad oeddent yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Gwnaeth HMIP y gwaith hwn mewn tri cham drwy:

- 1 Archwilio i ba raddau yr oedd y wybodaeth am berygl hunan-niweidio a gafwyd

wrth gadw pobl yn nalfa'r heddlu'n cael ei chofnodi'n gywir ac yn debygol o gael ei defnyddio wrth gynllunio gofal wedi hynny. Arolygwyd cyfanswm o 181 PER mewn pum heddlu. Canfu HMIP fod sawl ffurflen PER wedi'i llenwi'n rhannol yn unig neu'n annarllenadwy. Mewn rhai heddluoedd, roedd y ffurflenni'n cael eu taflu i ffwrdd ac mewn eraill, roeddent yn cael eu storio'n anniben gyda thudalennau o ffurflen un unigolyn a gadwyd wedi'u cymysgu â thudalennau o PER unigolyn arall a gadwyd. Nid oedd y staff a oedd yn defnyddio'r ffurflenni PER yn deall pwysigrwydd y wybodaeth oedd ynddynt. Roeddent yn credu bod y ffurflenni'n fiwrocraidaidd yn hytrach nag yn offeryn pwysig wrth gynllunio a chyflenwi gofal i unigolion a gedwir. Lle canfuwyd hunan-niweidio, roedd y wybodaeth hon yn aml yn rhy amwys i fod yn ddefnyddiol. Gallai hyn guddio difrifoldeb posibl ymddygiad diweddar unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Fodd bynnag, nododd HMIP arfer da gan un heddlu. Yn Ne Cymru, roedd staff yn cael eu hyfforddi sut i lenwi PER ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal. O ganlyniad, roedd ansawdd y wybodaeth PER yn Ne Cymru'n llawer gwell nag mewn heddluoedd eraill.

- 2 Adolygu i ba raddau yr oedd gwybodaeth y PER yn helpu i reoli gofal carcharorion a phobl ifanc sy'n agored i hunan-niwed mewn carchardai a sefydliadau troseddwy'r ifanc. Cynhaliwyd gwaith maes mewn pum carchar gan gynnwys arsylwi yn y dderbynfa, cyfweliadau â staff a carcharorion, a dadansoddi cofnodion. Dywedodd staff carchardai fod y PER yn fodd defnyddiol o dynnu sylw at y ffaith bod angen rhoi sylw i hunan-niweidio, ond nad

¹⁹ Gweler, er enghraifft, Erthygl 37(c) Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 10 y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, a Rheol 8 y Rheolau Safonol Gofynnol ar gyfer Trin Carcharorion.

²⁰ Mae'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa'n rhan o strwythur tair haen gyda'r nod o greu gostyngiad parhaus a rennir yn nifer a chyfradd y marwolaethau ym mhob math o ddalfa wladol yng Nghymru a Lloegr.

oeddent bob amser yn ddigon manwl ac nad oeddent yn aml yn nodi lefel y perygl a pha mor uniongyrchol ydoedd. Roedd hyn yn gwneud cynllunio gofal yn anodd.

- 3 Cynnal grwpiau ffocws â defnyddwyr PER (gan gynnwys dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llysoedd, staff hebrwng a staff derbynfeydd carchardai) i brofi argymhellion ynglŷn â newid y PER a'r dogfennau cysylltiedig.

O ganlyniad i'w hadolygiad, gwnaeth HMIP lawer o argymhellion am PER. Roedd y rhain yn cynnwys: posibilrwydd ymchwilio i symud oddi wrth PER ar bapur at gofnod electronig, i ddatrys anawsterau ymarferol â PER; sicrhau ansawdd PER i wella eu safonau; hyfforddi staff ar draws y stad carcharu ynglŷn â'u diben a'u llenwi; gwella ansawdd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar PER; ac y dylid llenwi ffurflenni rhybudd hunan-niwed os ceir pryder difrifol am hunan-niwed. Cyhoeddwyd adroddiad adolygiad HMIP o PER ym mis Hydref 2012 a monitir y broses o weithredu ei argymhellion.²¹

Hebryngiadau tramor

Mae monitro hebryngiadau tramor wedi bod yn faes gwaith newydd i ddau aelod o'r NPM – IMB a HMIP. Mae monitro hebryngiadau tramor yn golygu monitro pobl a gedwir drwy gydol y broses o'u symud o'r DU, gan gynnwys yn ystod yr hediad o'r DU. Cafwyd tystiolaeth o'r angen am fonitro annibynnol pan fu farw oedolyn gwrywaidd a gadwyd wrth gael ei alltudio o'r DU i Angola ym mis Hydref 2010. Bu farw'r dyn wrth gael ei ffrwyno gan staff hebrwng ar awyren.

Mae pob canolfan symud mewnfudwyr (IRC) a rhai cyfleusterau dal tymor byr (STHF) i

fewnfudwyr a gedwir yn cael eu monitro gan IMB o wirfoddolwyr o'r gymuned leol. Ar ôl cais gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Ionawr 2011 i fonitro hebryngiadau tramor, cytunodd yr IMB i asesu dichonoldeb y maes newydd hwn. Mae'r IMB wedi monitro chwe hediad hebrwng tramor hyd yn hyn, a digwyddodd tri o'r rhain yn ystod 2011-12. Roeddent yn cynnwys dau hediad a drefnwyd gan lywodraeth Prydain i Kabul, Afghanistan ac Islamabad, Pakistan, ac un hediad a weithredwyd gan Frontex i Lahore, Pakistan.²² Bu dau aelod o'r bwrdd yn monitro'r broses hebrwng o adeg casglu'r bobl a gadwyd o'r IRC hyd nes iddynt adael yr awyren yn y wlad yr oeddent yn hedfan iddi.

Er bod y staff hebrwng yn amheus o'u presenoldeb i ddechrau, canfu aelodau'r bwrdd yn ddigon buan fod y staff yn awyddus i hwyluso eu gwaith monitro gymaint ag y gallent. Ar y cyfan, roedd aelodau'r bwrdd yn hapus â'r gofal a gymerwyd i dawelu meddyliu'r bobl a gadwyd ac i dawelu neu leihau sefyllfaoedd ymfflamychol posibl. Fodd bynnag, roeddent yn pryderu am y cyfnodau maith yr oedd y bobl a gadwyd yn eu treulio'n aros yn ystod y broses o'u symud. Roedd hyn yn cynnwys aros am gyfnodau maith ar fysiau wrth adael yr IRC, ac aros yn y maes awyren cyn mynd ar yr awyren. Gallai'r cyfnodau aros hir hyn achosi i'r bobl a gedwir fynd yn llawer mwy pryderus.

Roedd aelodau'r bwrdd o'r farn ei bod yn arfer da bod prif swyddog mewnfudo ar bob hediad i gynnal cymorthfeydd a chyfarfod â phob unigolyn a gadwyd a oedd yn dymuno trafod materion. Ar un hediad, gallodd aelodau'r bwrdd hefyd dderbyn cwynion a phryderon ar ran y bobl a gadwyd, a chymryd camau dilynol ar ôl dychwelyd i'r DU. O ganlyniad i bryderon a fynegwyd gan aelodau'r bwrdd, cyflwynwyd

²¹ HMIP, *The Use of Person Escort Records with Detainees at Risk of Self-Harm: A thematic review* (Hydref 2012).

²² Mae Frontex yn un o asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n hybu, yn cyd-drefnu ac yn datblygu rheolaeth ffiniau Ewropeaidd. Un o'u swyddogaethau yw cynorthwyo Aelod Wladwriaethau'r EU i gyd-drefnu eu hymdrechion i ddychwelyd dinasyddion tramor i'w gwledydd gwreiddiol, gan gynnwys drwy gyd-drefnu hediadau dychwelyd ar y cyd.

system cwynion ffurfiol i bobl a gedwir wrth gael eu hebrwng dramor.

Mae monitro hediadau Frontex wedi achosi pryder arbennig ymysg IMB. Ar hediad Frontex, gellir dychwelyd pobl a gadwyd mewn llawer o Aelod Wladwriaethau'r UE i'w gwlad wreiddiol ar yr un pryd. Bydd un Aelod Wladwriaeth yn gyfrifol am drefnu'r hediad a bydd Frontex yn cyd-drefnu gyda'r awdurdodau o Wladwriaethau eraill sy'n cymryd rhan. Er mai Frontex sy'n cyd-drefnu'r hediad, caiff pobl a gedwir eu hebrwng gan staff y wlad y maent yn cael ei dychwelyd ohoni. Mae'r IMB wedi canfod bod hyn yn arwain at safonau triniaeth newidiol ar hediadau o ran, er enghraifft:

- sut y caiff pobl a gedwir eu rheoli gan staff hebrwng – mae aelodau'r bwrdd wedi sylwi bod staff o rai gwledydd yn ymddangos yn fwy gwrthdrawiadol a thueddol i ddefnyddio grym nag eraill
- natur a maint y grym a ddefnyddiwyd yn erbyn pobl a gedwir – er enghraifft, yn wahanol i'r DU, mae rhai gwledydd yn defnyddio ffrwyno cemegol ac mae'n ymddangos bod ffrwyno'n beth mwy cyffredin
- ardystio ffitrwydd i hedfan
- darpariaeth gofal iechyd yn ystod yr hediad
- darparu hebryngwyr o'r naill ryw a'r llall yn briodol wrth symud menywod

Mae'r gwahaniaethau rhwng y driniaeth a brofir gan bobl a gedwir ar yr un hediad yn codi pryderon i'r awdurdodaeth o ran pwysy'n gyfrifol yn y pen draw am ddiogelwch a lles pobl a gedwir wrth iddynt gael eu symud. Gall safonau triniaeth sy'n dderbyniol i un Wladwriaeth sy'n cymryd rhan fod yn annerbyniol i un arall.

Wrth asesu dichonoldeb parhau i fonitro hebryngiadau tramor, mae'r IMB wedi cydnabod

y rhan bwysig y gallant ei chwarae ac mae effaith gadarnhaol eu gwaith wedi eu calonogi. Maent wedi penderfynu y byddant yn parhau i fonitro hebryngiadau tramor yn y dyfodol.

Mae gan HMIP ddyletswydd statudol i fonitro IRC, STHF a threfniadau hebrwng pobl a gedwir mewn canolfannau mewnfudo. Er eu bod wedi bod yn monitro hebrwng pobl a gedwir o fewn y DU ers blynyddoedd lawer, cynhaliodd HMIP eu dau arolygiad cyntaf o hebryngiadau tramor yn 2011. Yn y dyfodol, bydd hebryngiadau tramor yn rhan reolaidd o raglen arolygu HMIP.

Roedd y ddau hebryngiad tramor a arolygwyd yn gysylltiedig â symud pobl i Jamaica ac i Nigeria. Roedd yr arolygiadau'n cynnwys bod gyda'r hebryngwyr o'r adeg pan fyddent yn casglu pobl a gedwir o IRC i'r adeg pan fyddai'r bobl a gedwir yn mynd oddi ar yr awyren yn y wlad y cawsant eu symud iddi. Fel yr IMB, canfu HMIP fod y ddau hediad yn drefnus a, gan fwyaf, wedi'u rheoli'n rhesymol dda. Roedd y rhan fwyaf o hebryngwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n dda ac yn ymdrin yn sensitif ag anghenion unigolion a gadwyd. Fodd bynnag, roedd HMIP yn pryderu am agwedd ddiotal ac amhroffesiynol lleiafrif o'r staff hebrwng ar un hediad a oedd, o fewn clyw'r bobl a gadwyd, yn rhegi'n gyson, yn defnyddio iaith anwedus a hiliol, ac yn cyffredinoli nodweddion cenedlaethol. Ni chawsant eu herio gan eu cydweithwyr na'u rheolwyr.

Mae'n anochel bod hebryngiadau tramor yn ddiogelwdd sy'n gallu peri straen a chafodd bregusrwydd y bobl a gadwyd wrth iddynt gael eu symud ei drin yn rhy ysgafn. Roedd niferoedd y staff yn ormodol; roedd dros deirgwaith cymaint o hebryngwyr â phobl a gadwyd ar un hediad. Nid oedd hyfforddiant achrededig ar gyfer defnyddio grym ar awyren. Mewn un achos, roedd pen un unigolyn a gadwyd yn dal i gael ei ffrwyno ar ôl iddo

ddechrau cydymffurfio. Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio gefynnau llaw a grym, ac am y cyfnod byrraf posibl, ond canfu HMIP ddiffygion o ran gweithredu'r ddau ofyniad hyn. Mewn un achos cadwyd unigolyn mewn gefynnau llaw am dros ddwy awr, er i'r staff gydnabod mai anhapus oedd hi, yn hytrach na 'chodi helynt'.

Roedd HMIP o'r farn bod defnyddio pobl a gadwyd 'wrth gefn' wrth eu symud ar hediadau siarter yn arfer annynol. Roedd hyn yn golygu gorfwcio pobl a gadwyd ar hediadau ar ôl iddynt ffarwelio am y tro olaf yn y DU, neu pan oeddent yn edrych ymlaen at ddychwelyd adref, cyn dweud wrth rai ohonynt ar y funud olaf na fyddent yn hedfan wedi'r cyfan. Nid oedd y bobl a gadwyd yn deall eu bod ar y rhestr wrth gefn hon. Argymhellodd HMIP y dylid rhoi'r gorau i'r arfer hwn, ac ategwyd yr argymhelliad gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref.²³

Bydd mwy o fonitro ac arolygu hebryngiadau tramor gan IMB a HMIP yn ein galluogi i sefydlu darlun cliriach o'r driniaeth a gaiff pobl a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, wrth eu symud o'r wlad. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau triniaeth ddiogel a dyngar i bobl a gedwir mewn amodau anodd ac ar adeg anhygoel o ingol yn eu bywydau.

Mae prosiect NPM Ewrop Cyngor Ewrop wedi cydnabod pwysigrwydd y maes gwaith newydd hwn. Bwriad y prosiect yw creu rhwydwaith gweithredol o gyrff NPM a hwyluso rhannu gwybodaeth ac arferion da, ac yn 2011-12 roedd yn canolbwyntio'n arbennig ar hebryngiadau tramor. Dechreuodd hyn â seminar a gynhaliwyd gan HMIP yn Llundain lle'r oedd cynrychiolwyr o gyrff NPM Ffrainc, yr Almaen, Sbaen a'r Swistir yn bresennol, ynghyd ag aelodau o Bwyllgor Atal Artaith Ewrop a chyrrff anllywodraethol, megis y Gymdeithas Atal Artaith.

Diben y seminar oedd trafod materion penodol a gododd o fonitro alltudio. Yn ystod y seminar, daeth yn amlwg y gall fod cwmpas i gyrff NPM Ewrop i gydweithio wrth fonitro hediadau a weithredir gan Frontex neu a drefnir ar y cyd gan wladwriaethau Ewropeaidd i alltudio pobl a gedwir i'r un wlad. Ac ystyried cymhlethdod y materion a lefel y diddordeb gan gyrff NPM eraill yn Ewrop, trefnodd y prosiect weithdai pellach ar hebryngiadau tramor ym mis Mawrth a Mehefin 2012, ac roedd cynrychiolwyr NPM y DU yn bresennol yn y ddau weithdy.

Argymhellion

I gomisiynwyr a darparwyr hebryngiadau ledled y DU

- 2 Dylai plant a phobl ifanc dan 18 oed, menywod a dynion gael eu cludo ar wahân wrth hebrwng pobl a gedwir.
- 3 Dylid bod mecanweithiau effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth am unigolyn a gedwir wrth ei symud rhwng manau cadw. Yng Nghymru a Lloegr, dylai cynllun, fformat a dull defnyddio'r cofnod hebrwng unigolyn ganiatáu cyfnewid gwybodaeth yn gyson, yn effeithiol ac yn brydlon rhwng pawb sy'n gyfrifol am newid lleoliad unigolyn a gedwir.
- 4 Dylai'r mesurau diogelwch a gymerir wrth hebrwng unigolion a gedwir fod yn gymesur i'r risg a achosir ac yn seiliedig ar asesiad o'r unigolion dan sylw.

I wasanaethau llysoedd ledled y DU

- 5 Dylid defnyddio mwy o gysylltiadau fideo-gynadledda i leihau'r angen i bobl a gedwir deithio pellteroedd maith i wneud ymddangosiadau byr yn y llys.

I Asiantaeth Ffiniau'r DU

- 6 Dylid datblygu system ffrwyno achrededig i'w defnyddio ar awyrennau. Dylai pob aelod staff hebrwng gael hyfforddiant achrededig ar y technegau ffrwyno cymeradwy.

²³ Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, Rheolau ar gyfer symud pobl dan orfodaeth o'r DU - Deunawfed Adroddiad Sesiwn 2010-12 (Ionawr 2012)

Adran pump Monitro lleyg

Mae monitro manau cadw gan wirfoddolwyr di-dâl o'r gymuned leol yn un o nodweddion allweddol NPM y DU. Mae monitro lleyg fel hyn yn digwydd ledled y DU a gyda gwahanol fathau o fannau cadw. Mae gan fonitro lleyg carchardai, yn enwedig, hanes hir. Cafodd byrddau ymwelwyr, sef enw blaenorol IMB, eu sefydlu am y tro cyntaf yn y 19eg ganrif, a gellir olrhain fersiynau blaenorol ohonynt yn ôl cyn belled â theyrnasiad y Frenhines Elizabeth I (1558–1603). Cyflwynwyd ymweliadau â dalfeydd yr heddlu yn 1984 ar ôl adroddiad yr Arglwydd Scarman i derfysgoedd Brixton yn 1981. Er bod monitro lleyg felly wedi hen ennill ei blwyf cyn mabwysiadu OPCAT yn 2002, mae'n dal i gyd-fynd yn dda â fframwaith OPCAT.

Ar hyn o bryd, mae pedwar o aelodau NPM yn monitro manau cadw drwy ddefnyddio monitoriaid lleyg yn unig. Hefyd, mae rhai o'r arolygiaethau proffesiynol sy'n monitro manau cadw yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio monitoriaid lleyg yn ogystal ag arolygyddion sy'n derbyn tâl. Mae'n debygol y bydd nifer y cyrff lleyg yn yr NPM yn cynyddu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r NPM yn rhagweld y caiff arsylwyr lleyg dalfeydd llysoedd Cymru a Lloegr eu henwebu gan y llywodraeth yn aelod ychwanegol o'r NPM, er nad oes sicrwydd am amseru'r enwebiad hwn.

Monitro lleyg gan yr NPM

- 1 Mae pob carchar a sefydliad troseddwy'r ifanc yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael ei fonitro gan IMB o aelodau o'r gymuned leol.
- 2 Yn yr un modd, caiff canolfannau symud mewnfudwyr a chyfleusterau dal tymor byr ledled y DU eu monitro gan IMB.
- 3 Caiff dalfeydd yr heddlu ledled y DU eu monitro gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.
- 4 Mae rhai o'r arolygiaethau proffesiynol sy'n monitro manau cadw yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, megis yr Arolygiaeth Gofal yn yr Alban, yn defnyddio monitoriaid lleyg yn ogystal ag arolygyddion sy'n derbyn tâl.

Wrth weithredu OPCAT yn effeithiol, mae defnyddio monitoriaid lleyg yn cynnig buddion penodol ond hefyd yn cyflwyno rhai heriau. Trafodwyd y materion hyn mewn gweithdy ym mis Hydref 2011. Mae'r NPM yn ddiolchgar i Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste am eu cymorth i'r digwyddiad hwn. Diben y gweithdy oedd rhoi cyfle i'r cyrff lleyg yn yr NPM i drafod gweithredu OPCAT yn fanylach, gan ystyried natur eu sefydliadau.

Monitro mewn haenau

Mae bodolaeth monitoriaid lleyg manau cadw'n tynnu sylw at un arall o nodweddion allweddol NPM y DU – mae rhai manau cadw, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu a dalfeydd mewnfudo, yn cael eu monitro 'mewn haenau' gan arolygiaeth broffesiynol a gan wirfoddolwyr o'r gymuned. Mae'r arolygiaeth broffesiynol yn gwneud gwaith arolygu proffesiynol cylchol, manwl yn erbyn meini prawf a gyhoeddir, sy'n cynnwys defnyddio, er enghraifft, arbenigwyr gofal iechyd yn unol ag argymhellion yr SPT. Mae'r corff monitro lleyg yn gallu ymweld yn amlach nag a

allai arolygiaeth broffesiynol heb gynnydd sylweddol mewn adnoddau neu newidiadau i'w methodoleg. Mae monitro manau cadw'n rheolaidd, wrth gwrs, yn un o ofynion allweddol OPCAT. Mae monitoriaid lleug yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd, yn hytrach na bod yn giplun o fan cadw ar adeg yr arolygiad, yn rhoi darlun o'r sefydliad dros gyfnod o flwyddyn. Yr haenau monitro hyn sydd, at ei gilydd, yn galluogi'r DU i gyflawni eu hymrwymiaidau dan OPCAT.

Monitro rheolaidd

Mae Erthygl 1 OPCAT yn datgan mai ei ddiben yw sefydlu system o ymweliadau rheolaidd â manau lle mae pobl wedi colli eu rhyddid. Un o fuddion allweddol monitro lleug yw pa mor aml y bydd ymwelwyr â dalfeydd neu aelodau bwrdd yn ymweld â manau cadw; ni all arolygiaethau proffesiynol ymweld â hwy mor aml. Yng Nghymru a Lloegr, ac yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i IMB gyfarfod yn y sefydliad o leiaf unwaith y mis. Yn ymarferol, bydd o leiaf un aelod bwrdd yn ymweld bob wythnos, ond gwneir ymweliadau mwy rheolaidd hefyd. Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaeth ymwelwyr â dalfeydd 1,037 o ymweliadau ag 19 o ddalfeydd yr heddlu yn 2011-12. Gwneir ymweliadau ar wahanol adegau o'r dydd ac ar wahanol adegau o'r wythnos. I annog ymwelwyr i fonitro manau cadw ar oriau anghymdeithasol, mae ymwelwyr â dalfeydd yng Ngogledd Iwerddon yn cael canllaw i nifer yr ymweliadau i'w gwneud ar benwythnosau ac yn hwyr gyda'r nos neu'n gynnar yn y bore.

Mae ymweliadau aml fel hyn gan aelodau lleug yr NPM yn cyd-fynd â'u swyddogaeth ataliol dan OPCAT – mae ymweld rheolaidd yn caniatáu iddynt nodi pryderon am driniaeth pobl a gedwir a'r amodau ar eu cyfer, ac yn golygu y gellir rhoi sylw iddynt cyn gynted â phosibl.

Mannau cadw

Mae OPCAT yn mynnu bod pob man cadw'n cael ei fonitro'n annibynnol ac yn rheolaidd. Yn ein gweithdy, sylwyd ar rai bylchau. Er enghraifft, mae ymwelwyr â dalfeydd yng Nghymru a Lloegr yn ymweld â chyfleusterau sy'n cael eu gweithredu gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ond dywedasant mai dim ond drwy wahoddiad y byddai hyn yn digwydd. Nid oes ganddynt hawl statudol i gael mynediad i chyfleusterau o'r fath, yn unol ag argymhelliaid yr SPT.²⁴ Mae Llywodraeth y DU ei hun wedi tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi hawl mynediad statudol i fonitoriaid – roedd hyn yn un o feini prawf y llywodraeth yn 2009 wrth benderfynu pa sefydliadau i'w henwebu'n aelodau o'r NPM.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Prif Gwnstabl yn enwebu gorsafoedd heddlu i'w defnyddio i gadw unigolion sy'n cael eu harestio. Nid yw gorsafoedd nad ydynt wedi'u henwebu'n rhan o gylch gwaith yr ymwelwyr â dalfeydd ar hyn o bryd. Er mai dim ond dan rai amgylchiadau penodol ac am gyfnodau cyfyngedig y gellir cadw unigolyn mewn gorsaf heddlu sydd heb ei henwebu, mae OPCAT yn mynnu bod pob man cadw'n cael ei fonitro. Yn ystod 2011-12, er enghraifft, cadwyd 39 o bobl mewn gorsafoedd heddlu heb eu henwebu lle na allai ymwelwyr â dalfeydd fonitro'r driniaeth a gawsant na'r amodau ar eu cyfer. Mae Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon, a'r NPM yn gyffredinol, yn argymhell y dylid cynnwys gorsafoedd heddlu heb eu henwebu yng nghylch gwaith yr ymwelwyr â dalfeydd.

Gwneud argymhellion

Swyddogaeth NPM yw gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella'r driniaeth a gaiff pobl a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, ac atal camdriniaeth. Bydd

²⁴ SPT, Canllawiau ar fecanweithiau atal cenedlaethol CAT/OP/12/5 (09/12/10) ('Canllawiau'r SPT') ym mharagraff 7.

cyrff monitro lleyg NPM y DU yn gwneud argymhellion o ganlyniad i'w hymweliadau â manau cadw, ond maent yn ofni nad yw eu hargymhellion yn cael eu gweithredu bob amser. Gallant wneud yr un argymhelliad flwyddyn ar ôl blwyddyn heb weld tystiolaeth o newid nac eglurhad pam nad yw'r argymhelliad yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn groes i Erthygl 22 OPCAT, sy'n mynnu bod awdurdodau'n archwilio argymhellion NPM ac yn cael deialog â hwy ar fesurau gweithredu posibl. Yng Nghymru a Lloegr, paratoir cynlluniau gweithredu ar ran y llywodraeth fel ymateb i argymhellion adroddiad blynyddol pob IMB. Mae hyn yn arfer da ac yn helpu aelodau'r bwrdd i ddilyn eu hargymhellion. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r IMB yn cyfeirio eu hargymhellion i'r Gweinidog Cyfiawnder er mwyn iddynt gael eu cymryd o ddifrif ac i sicrhau y cânt eu gweithredu'n effeithiol. Yna, rhaid i Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon gyhoeddi eu hymateb i bob argymhelliad.

Mae monitoriaid lleyg hefyd yn ofni bod eu hargymhellion yn cael statws is nag argymhellion yr arolygiaethau proffesiynol. Yn benodol, efallai na fydd y gallu ganddynt i olrhain argymhellion strategol sy'n fater o gyfraith gwlad neu bolisi, yn hytrach na mater y gellir ei ddatrys yn lleol neu gan sefydliad unigol. Fodd bynnag, drwy i sefydliadau unigol ddod at ei gilydd dan fframwaith NPM, ceir cyfle am well cyfathrebu rhwng y cyrff lleyg a'r arolygiaethau proffesiynol a'r posibilrwydd o gydweithio'n agosach i fonitro gweithredu eu hargymhellion ei gilydd. Yn wir, mae eu henwebu'n aelodau o'r NPM eisoes wedi hwyluso cyswllt rhwng y cyrff monitro lleyg a'i gilydd, yn ogystal â rhwng y cyrff lleyg ac arolygiaethau proffesiynol, gan ganiatáu iddynt drafod pryderon cyffredin a chanfod meysydd lle gallant weithredu ar y cyd.

Annibyniaeth

Mae aelodau lleyg yr NPM yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r awdurdodau y maent yn eu monitro. Mae cael eu henwebu'n aelodau o'r NPM wedi atgyfnerthu natur annibynnol eu gwaith a'u hannog i asesu a ydynt yn ddigon annibynnol. Mae hyn wedi achosi goblygiadau i'w harferion. Er enghraifft, yn y gorffennol, câi ymwelwyr â dalfeydd yng Nghymru a Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon eu cyflwyno i bobl a gedwir gan swyddog y ddalfa. I hybu annibyniaeth, mae ymwelwyr â dalfeydd wedi dechrau defnyddio polisi o gyflwyno eu hunain. Mae hyn yn annog pobl a gedwir i weld bod yr ymwelwyr yn annibynnol ar staff y ddalfa, ac mae wedi bod yn llwyddiannus. Yng Ngogledd Iwerddon, gostyngodd cyfran y bobl a gedwir a wrthododd siarad ag ymwelwyr â dalfeydd o 18% i 7% ar ôl iddynt ddechrau cyflwyno eu hunain.

Mae'r SPT wedi nodi y gellir cynorthwyo NPM i weithredu'n annibynnol drwy nodi hyd cyfnodau gwasanaeth yr aelodau. Mae hyn wedi bod yn fater dadleuol i rai o aelodau lleyg yr NPM. Er bod rhai ohonynt eisoes yn gwneud penodiadau tymor cyfyngedig, nid yw eraill. Mae IMB yng Nghymru a Lloegr wrthi'n cyflwyno polisi tymor sefydlog. Mae hyn wedi codi rhai ofnau y bydd byrddau'n ei chael yn anodd recriwtio gwirfoddolwyr i gymryd lle aelodau tymor cyfyngedig ac y byddant yn colli llawer o brofiad ac arbenigedd. Mae eraill yn credu y caiff yr anawsterau recriwtio eu cydbwysu gan fuddion safbwyntiau ffres aelodau newydd i'r bwrdd. Ar y llaw arall, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, yn cael eu penodi am dymor cyfyngedig o uchafswm o chwe mlynedd. Maent yn teimlo nad yw'r dull hwn wedi cael effaith anffafriol ar recriwtio a'i fod, yn wir, wedi annog amrywiaeth ymysg gwirfoddolwyr gan gadw lefel dda o brofiad ac arbenigedd.

Gwybodaeth broffesiynol

Mae Erthygl 18(2) OPCAT yn mynnu bod gan arbenigwyr y mecanwaith atal cenedlaethol y galluoedd a'r wybodaeth broffesiynol ofynnol. Mae'r SPT wedi ehangu ar y ddarpariaeth hon, gan awgrymu y dylai NPM gynnwys staff ag arbenigedd berthnasol ym meysydd y gyfraith a gofal iechyd.²⁵ Mae'r gofyniad hwn yn groes i natur cyrff lleyg. Caiff monitoriaid lleyg eu dewis ar sail eu rhinweddau a'u sgiliau, nid ar sail cefndir neu gymhwyster proffesiynol. Yn aml, caiff rhai â phrofiad gwaith o fath arbennig o ddalfa eu gwahardd yn benodol rhag mynd yn fonitro lleyg, gan y byddai hynny'n creu gwrthdaro rhwng buddiannau (er enghraifft, ni allai heddwys neu gyn-heddwys wasanaethu fel ymwelydd â dalfeydd). Ar ôl eu penodi, cânt hyfforddiant mewn monitro manau cadw. Un o gryfderau allweddol cyrff lleyg yw eu bod wedi'u gwneud o bobl sy'n cynrychioli'r gymuned leol ac yn dod o bob math o gefndir, sy'n golygu bod ganddynt amrywiaeth o safbwyntiau wrth fonitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer.

Nid yw aelodau lleyg yr NPM yn teimlo y dylent newid eu cyfansoddiad fel ymateb i OPCAT oherwydd, o ganlyniad i haenau monitro manau cadw, darperir arbenigedd proffesiynol (megis arbenigedd gofal iechyd) gan yr arolygiaethau yn ystod eu hymweliadau â manau cadw.

Amrywiaeth

Mae Erthygl 18(2) OPCAT hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod gan NPM gydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth ddigonol o grwpiau ethnig lleiafrifol. Caiff aelodau IMB ac ymwelwyr â dalfeydd eu recriwtio mewn modd agored a theg. Ac ystyried eu bod yn cael eu recriwtio o amrywiaeth o gefndiroedd ac nid ar sail eu harbenigedd proffesiynol, ynghyd â nifer y monitoriaid lleyg sy'n bodoli

(mae tua 1,750 o aelodau IMB yng Nghymru a Lloegr), ceir cwmpas i gynnwys trawstoriad eang o'r gymuned mewn gwaith monitro manau cadw. Fodd bynnag, oherwydd natur wirfoddol y gwaith, mae monitoriaid lleyg yn tueddu i fod wedi ymddeol ac felly'n hŷn. Mae cyrff lleyg yn gallu ei chael yn anodd recriwtio gwirfoddolwyr iau, yn ogystal â rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae cyrff lleyg yn cydnabod bod angen unioni'r mater hwn ac ystyried bod pobl ifanc a rhai o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli ym mhoblogaeth pobl a gedwir. Roedd y gweithdy'n gyfle i aelodau lleyg yr NPM i rannu gwybodaeth am sut y maent yn targedu grwpiau lleiafrifol wrth recriwtio ac am beth y gellir ei wneud i gadw gwirfoddolwyr.

Adnoddau digonol

Er gwaethaf manteision niferus monitro lleyg, ceir rhai heriau hefyd. Er ei fod yn ddull cost-effeithiol iawn o fonitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, mae hyd yn oed monitro lleyg wedi wynebu toriadau cyllideb yn y blynyddoedd diwethaf. I gynnal lefelau monitro, rhaid canfod arbedion mewn cyllidebau sydd eisoes yn denau. Ceir pryderon y gallai hyn effeithio ar hyfforddiant i wirfoddolwyr. Ac ystyried y gall fod yn anodd sicrhau dulliau cyson ar draws byrddau monitro neu gynlluniau ymweld â dalfeydd, mae hyfforddiant cychwynnol a pharhaus yn dal i fod yn hanfodol.

Ymweld â dalfeydd yn yr Alban

Yng Nghymru a Lloegr, ac yng Ngogledd Iwerddon, sefydlwyd cynlluniau ymweld â dalfeydd yr heddlu drwy statud. Er bod cynlluniau ymweld â dalfeydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban, nid oedd sail statudol iddynt ac, o ganlyniad, ni chawsant eu henwebu'n aelod o'r NPM gan y llywodraeth. Ar adeg yr enwebu yn 2009, mynnodd y

²⁵ SPT, Guidelines paragraph 20.

Llywodraeth bod gan bob aelod o'r NPM hawl statudol o fynediad dirwysr i fannau cadw ac at bobl a gedwir. Fodd bynnag, ers hynny, mae statws ymweld â dalfeydd yn yr Alban wedi newid yn sylweddol yng nghyd-destun diwygio plismona mwy cyffredinol.

Yn 2011, ymgynghorodd llywodraeth yr Alban am ddyfodol plismona a chafwyd cynigion i uno wyth heddlu'r Alban yn un gwasanaeth cenedlaethol. Ymatebodd yr NPM gyda'i gilydd, yn ogystal ag aelodau unigol ac ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban, i'r ymgynghoriad hwn gan annog y llywodraeth i ddefnyddio'r broses o ailstrwythuro plismona fel cyfle i roi sail statudol i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn a chafodd ymweld â dalfeydd ei gynnwys yn y Bil Diwygio'r Heddlu a Thân (Yr Alban). Croesawodd yr NPM y fenter hon, ac roeddent yn arbennig o falch bod llywodraeth yr Alban wedi cyfeirio'n benodol at OPCAT a'i ofynion yn y Bil. Yn wir, ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban yw'r cyntaf o aelodau'r NPM i fod â sôn am OPCAT yn eu deddfwriaeth sefydlol. Y Bil hefyd oedd y ddeddfwriaeth gyntaf yn y DU i ddarparu'n benodol ar gyfer ymweliadau â mannau cadw gan Is-bwyllgor Atal Artaith (SPT) y Cenhedloedd Unedig.

Pasiwyd y Bil gan Senedd yr Alban yn 2012 a daeth ei ddarpariaethau i rym ar 1 Ebrill 2013. Er bod yr NPM yn cymeradwyo ymrwymiad llywodraeth yr Alban i OPCAT yng nghyd-destun dalfeydd yr heddlu, dylid ystyried nawr beth yw'r ffordd orau o gefnogi a gweinyddu ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr heddlu o fewn un gwasanaeth heddlu cenedlaethol.

Yng ngoleuni'r sail statudol newydd i ymweld â dalfeydd yn yr Alban, galwn hefyd ar Lywodraeth y DU i enwebu ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban yn aelod ar wahân o'r NPM.

Deddf Diwygio'r Heddlu a Thân (Yr Alban) 2012 – detholiadau perthnasol

93 Diben ymweld â dalfeydd

Diben darpariaethau'r bennod hon yw cyflawni amcanion OPCAT, sef, yr amcan o sefydlu system o ymweliadau rheolaidd a gynhelir gan gyrff annibynnol cenedlaethol a rhyngwladol â mannau lle mae pobl wedi colli eu rhyddid er mwyn atal artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill.

94 Ymwelwyr annibynnol â dalfeydd

- (1) Rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i sicrhau y caiff ymwelwyr annibynnol â dalfeydd —
 - (a) ymweld â phobl a gedwir
 - (b) gweld gwybodaeth sy'n berthnasol i sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw, a
 - (c) monitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw.
- (2) Rhaid i'r trefniadau —
 - (a) ddarparu ar gyfer penodi unigolion addas yn ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sy'n annibynnol ar yr awdurdod ac ar y gwasanaeth heddlu
 - (b) awdurdodi ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i wneud unrhyw beth y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i'w galluogi i ymweld â phobl a gedwir a monitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw, a
 - (c) darparu ar gyfer ysgrifennu adroddiadau am bob ymweliad.

- (3) Caiff y trefniadau, yn benodol, awdurdodi ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i —
- gael mynediad, heb rybudd, i unrhyw fan lle caiff pobl eu cadw
 - archwilio cofnodion sy'n ymwneud â chadw pobl yno
 - cyfarfod ag unrhyw bobl a gedwir yno (yn breifat) i drafod sut y cânt eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw
 - archwilio'r amodau lle caiff pobl eu cadw yno (gan gynnwys llety celloedd, cyfleusterau ymolchi a thoiledau a chyfleusterau darparu bwyd), a
 - chyfarfod ag unrhyw unigolion eraill y mae'r ymwelwyr yn credu y byddai ganddynt wybodaeth sy'n berthnasol i sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw.

95 Ymweliadau SPT

- (1) Rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i sicrhau y caiff aelodau'r SPT [Is-bwyllgor Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill a sefydlwyd dan Erthygl 2 OPCAT] —
- ymweld â phobl a gedwir
 - gweld gwybodaeth sy'n berthnasol i sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw, a
 - monitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau lle cânt eu cadw.

Pwyllgorau ymweld â charchardai yn yr Alban

Yn yr Alban, mae gan bob carchar bwyllgor ymweld sy'n cyflawni swyddogaeth debyg i swyddogaeth IMB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar adeg enwebu'r NPM, ni chafodd pwyllgorau ymweld eu cynnwys gan eu bod yn destun adolygiad a bod pryderon am i ba raddau yr oeddent yn cydymffurfio ag OPCAT. Er enghraifft, roedd y pwyllgorau'n cael eu cyllid yn uniongyrchol o Wasanaeth Carchardai'r Alban; gallai hynny effeithio ar eu hannibyniaeth. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, rhagwelwyd y gellid enwebu pwyllgorau ymweld yn aelod o'r NPM yn y dyfodol.

Fodd bynnag, yn 2011, cyhoeddodd llywodraeth yr Alban eu bod wedi cwblhau eu hadolygiad ac y byddent yn diddymu pwyllgorau ymweld â charchardai. Er iddynt gydnabod bod carchardai yn yr Alban hefyd yn cael eu harolygu'n annibynnol gan HMIPS, mynegodd yr NPM bryder am y cynnig hwn, yn enwedig:

- colli ymweliadau aml o'r fath â charchardai
- nad yw carcharorion yn yr Alban yn cael eu hamddiffyn cystal â rhai yng ngweddill y DU
- buddion monitro carchardai mewn 'haenau' gan arolygiaeth broffesiynol, megis HMIPS, a monitoriaid lleyg, megis pwyllgorau ymweld
- yr angen i sicrhau y dylai penderfyniadau am fonitro carchardai roi ystyriaeth i OPCAT.

Ymatebodd llywodraeth yr Alban i bryderon a fynegwyd gan yr NPM ac eraill drwy gynnig y dylai HMIPS gymryd swyddogaeth monitro carchardai yn ogystal â'i swyddogaeth arolygu. Bydd yr NPM yn parhau i ymgysylltu â llywodraeth yr Alban a phartion perthnasol eraill am ddyfodol monitro carchardai yn yr Alban. Mae'r NPM yn ceisio sicrhau bod unrhyw

drefniadau yn y dyfodol yn cydymffurfio ag OPCAT ac maent wedi croesawu adolygiad o gynigion i fonitro carchardai yn erbyn OPCAT gan yr Athro Andrew Coyle, a gomisiynwyd gan lywodraeth yr Alban.

Monitoriaid lleyg o fewn arolygiaethau

Yn ogystal â monitro gan gyrrff lleyg, mae rhai o aelodau'r NPM sy'n arolygiaethau proffesiynol hefyd yn defnyddio monitoriaid lleyg fel rhan o'u gwaith. Er enghraifft, mae Arolygiaeth Gofal yr Alban, sy'n monitro cartrefi plant diogel a lleoliadau gofal preswyl eraill, yn defnyddio 'aseswyr lleyg'. Aseswyr lleyg yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu sydd wedi eu defnyddio, neu eu gofalwyr, sy'n gwirfoddoli i gymryd rhan mewn arolygiadau. Mae'r aseswyr yn siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal a'u gofalwyr ac yn gwneud arsylwadau'n seiliedig ar eu profiad personol eu hunain. Yna, bydd arolygydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio adroddiad am y gwasanaeth a'i asesu. Caiff aseswyr lleyg eu cefnogi a'u hyfforddi gan dîm pwrpasol yn yr Arolygiaeth Gofal. Mae cynnwys aseswyr lleyg mewn arolygiadau'n dangos ymroddiad yr Arolygiaeth Gofal i ddatblygu cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaethau monitro. Mae aelodau eraill o'r NPM, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn cynnwys monitoriaid lleyg mewn modd tebyg.

Argymhellion

I Weinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon

7 Dylid cynnwys celloedd yr heddlu nad ydynt wedi'u henwebu yng Ngogledd Iwerddon yng nghylch gwaith Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon.

I Ysgrifennydd Cabinet Cyfiawnder yr Alban

8 Dylai trefniadau monitro carchardai yn yr Alban yn y dyfodol gydymffurfio ag OPCAT.

I Awdurdod Heddlu'r Alban

9 Dylai Awdurdod Heddlu'r Alban ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi a gweinyddu ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr heddlu mewn un gwasanaeth heddlu cenedlaethol, gan ystyried gofynion OPCAT.

I'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

10 Dylid enwebu ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban yn aelod ychwanegol ar wahân o'r NPM.

Adran chwech Edrych ymlaen – blwyddyn pedwar

Yn 2012–13, mae aelodau'r NPM wedi parhau i fonitro triniaeth pobl a gedwir a'r amodau ar eu cyfer, a chyfrannu at weithredu OPCAT yn effeithiol yn y DU. Byddant yn parhau i fonitro sut y caiff eu hargymhellion eu gweithredu, gan gynnwys y rhai yn yr adroddiad hwn, gyda golwg ar atal camdriniaeth ym mhob man cadw.

Bydd yr aelodau hefyd yn parhau i ddatblygu'r gwaith o gyd-drefnu'r NPM, fel yr amlinellir yng nghynllun busnes 2012–13. Bydd hyn yn cynnwys:

- hwyluso trafodaethau rhwng aelodau'r NPM sy'n gweithredu mewn awdurdodaethau gwahanol am gaethiwo de facto, ac archwilio'r gwahaniaeth rhwng cyfyngiad a cholli rhyddid. Cynhelir y trafodaethau hyn yn bennaf rhwng aelodau'r NPM sy'n monitro lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- archwilio materion allweddol sy'n berthnasol i fonitro manau cadw, megis defnyddio carcharu unigol a chwilio pobl a gedwir
- asesu i ba raddau y caiff argymhellion aelodau'r NPM eu gweithredu ac adolygu sut i wneud argymhellion effeithiol
- datblygu swyddogaeth a gwaith y grŵp llywio
- datblygu'r berthynas rhwng aelodau'r NPM a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys yr SPT a'r Pwyllgor Atal Artaith (CPT). Bydd hyn yn cynnwys gwahodd aelod o'r SPT i ymweld â chynrychiolwyr IMB yng Nghymru a Lloegr i ddysgu mwy am agwedd monitro lleyg NPM y DU. Bu aelodau'r NPM hefyd yn cysylltu â'r CPT yn ystod eu hymweliad â'r DU yn 2012, gan roi gwybodaeth iddynt am bryderon mewn manau cadw ledled y DU.

Adran saith Golwg gyffredinol ar yr aelodau

Yn adroddiad blynyddol cyntaf NPM y DU, rhoddwyd proffil o bob un o aelodau'r NPM, gan roi gwybodaeth fanwl am eu mandad, eu strwythur a'u methodoleg. Yn hytrach na dyblygu'r wybodaeth honno mewn adroddiadau blynyddol dilynol, rydym wedi rhoi disgrifiad byr isod o bob aelod i'ch atgoffa. Rydym hefyd wedi cynnwys manylion unrhyw newidiadau mawr i'r aelodau yn ystod 2011-12. Mae gwybodaeth fanwl am bob aelod i'w chael yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf, yn y gronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y DU, neu yn adroddiadau blynyddol yr aelodau unigol neu ar eu gwefannau.²⁶

Fel mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rhoddir gwybodaeth am 19 o sefydliadau isod, er mai dim ond 18 sydd wedi'u henwebu'n aelodau o'r NPM. Nid yw'r 19eg sefydliad, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban, wedi'i enwebu ar wahân ond mae'n aelod o'r ICVA, sydd wedi'i enwebu.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

CSSIW sy'n rheoleiddio ac yn arolygu pob gwasanaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys llety diogel lle caiff plant eu lleoli naill ai am eu hymddygiad troseddol neu am eu bod yn achosi perygl sylweddol iddynt eu hunain neu i eraill. Mae CSSIW hefyd yn monitro trefniadau diogelu rhag amddifadu o ryddid yn ystod eu harolygiadau rheolaidd o gartrefi gofal i oedolion.

Yr Arolygiaeth Gofal

Cafodd yr Arolygiaeth Gofal ei sefydlu gan Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (yr Alban) 2010, a dyma'r corff annibynnol craffu a gwella ar gyfer gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cymorth a gofal cymdeithasol i bobl o bob oed. Fel rhan o'r swyddogaeth hon, mae'r Arolygiaeth yn monitro cartrefi plant diogel a gwasanaethau preswyl eraill. Nid yw'r Arolygiaeth Gofal wedi'i henwebu'n ffurfiol yn un o aelodau NPM y DU eto, ond mae'n olynau aelod a enwebwyd yn flaenorol (y Comisiwn Gofal).

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Mae CQC yn sefydliad statudol annibynnol sy'n gyfrifol am gofrestru gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr os ydynt yn bodloni safonau hanfodol o ran ansawdd a diogelwch, ac am fonitro darparwyr i wirio eu bod yn parhau i fodloni'r safonau hynny. Mae CQC hefyd yn monitro gweithredu Deddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys pobl a gedwir dan gyfraith iechyd meddwl. Mae CQC yn arolygu gofal iechyd mewn carchardai ac mewn mannau cadw mewn fudo ochr yn ochr â HMIP, ac yn cymryd rhan yn arolygiadau HMIP a HMIC o ddalfeydd yr heddlu.

Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon

Mae CJINI yn gorff statudol â chyfrifoldeb am arolygu pob agwedd ar y system cyfiawnder troseddol. Mae mandad CJINI yn eang a gallant arolygu amrywiaeth o fannau cadw, gan gynnwys carchardai, canolfannau cyfiawnder ieuencid, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd llys a chyfleusterau gofal diogel i blant.

²⁶ Mae'r gronfa ddata o aelodau NPM y DU, a gasglwyd gan Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste ar y cyd â'r aelodau eu hunain, ar gael yn www.bristol.ac.uk/law/research/centres-themes/hric/hricnmpmukdatabase/index.html. Mae gwefannau pob aelod o'r NPM wedi'u rhestru yn Atodiad 2.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

HIW sy'n rheoleiddio ac yn arolygu pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae rhan o'r swyddogaeth hon yn golygu monitro cydymffurfiaid â deddfwriaeth iechyd meddwl a sicrhau bod sefydliadau iechyd meddwl yn dilyn y trefniadau diogelu rhag amddifadu o ryddid a geir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005. I wneud hynny, mae HIW yn cydweithio'n agos â CSSIW, sy'n monitro defnyddio trefniadau diogelu rhag amddifadu o ryddid mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae HIW hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o garchardai Cymru a arweinir gan HMIP, gan asesu'r gofal iechyd a ddarperir i garcharorion a sicrhau ei fod cystal â'r gofal a ddarperir yn y gymuned.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Mae gan HMIC ddyletswydd statudol i arolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona, a chynhyrchu adroddiadau. Ar ôl cadarnhau OPCAT, mae swyddogaeth HMIC wedi cynnwys cynnal arolygiadau o gyfleusterau dalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr mewn partneriaeth â HMIP. O 2012 ymlaen, mae gan HMIC bŵer statudol i arolygu cyfleusterau dalfa tollfeydd a weithredir gan Lu Ffiniau'r DU.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban

Yn 2011-12, swyddogaeth HMICS oedd monitro a gwella gwasanaethau heddlu yn yr Alban. Roeddent yn craffu ar waith wyth heddlu'r Alban, yn ogystal â'r agweddau ar Asiantaeth Gorfodi Troseddau a Chyffuriau'r Alban sy'n ymwneud â phlismona gweithredol. Mae HMICS yn arolygu pob agwedd ar blismona, gan gynnwys dalfeydd yr heddlu. Wedi i wyth heddlu'r Alban uno i un gwasanaeth

cenedlaethol ar 1 Ebrill 2013, swyddogaeth HMICS fydd monitro cyflwr, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Awdurdod Heddlu'r Alban a'r gwasanaeth heddlu.

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Mae HMIP yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynnal arolygiadau rheolaidd o fannau cadw i asesu sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer. Mae HMIP yn arolygu pob carchar yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys YOI, pob canolfan symud mewnfudwyr, cyfleusterau dal tymor byr a threfniadau hebrwng mewnfudwyr a gedwir, a holl gyfleusterau dalfeydd yr heddlu ar y cyd â HMIC. Drwy wahoddiad, mae HMIP hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o arolygu carchardai yng Ngogledd Iwerddon (mewn partneriaeth â CJINI) ac yn arolygu rhai cyfleusterau cadw milwrol. Yn 2012, cafodd HMIP bwerau i arolygu cyfleusterau dalfeydd llysoedd a hefyd dechreuodd arolygu canolfannau hyfforddi diogel mewn partneriaeth ag Ofsted, a chyfleusterau dalfa tollfeydd gyda HMIC.

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban

Mae HMIPS yn arolygu carchardai, gan gynnwys YOI, gan roi sylw penodol i sut y caiff carcharorion eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Mae gan yr Arolygiaeth ddyletswydd hefyd i arolygu celloedd cyfreithiol yr heddlu. Defnyddir y celloedd hyn i ddal carcharorion sy'n aros am dreial yn eu hardal leol, yn hytrach na'u trosglwyddo i garchardai pell. Maent hefyd yn arolygu trefniadau hebrwng carcharorion – mae hyn yn cynnwys yr amodau lle caiff carcharorion eu cludo o un man i fan arall – yn ogystal â chyfleusterau dalfeydd llysoedd neu fannau eraill lle caiff carcharorion eu dal dros dro y tu allan i garchar.

Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Gwirfoddolwyr o'r gymuned yw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Maent yn ymweld â phob gorsaf heddlu lle caiff pobl eu cadw i archwilio eu lles. Mae ymweld â dalfeydd yn fater statudol ac mae gan ymwelwyr bŵer i fynd i orsafoedd heddlu, archwilio cofnodion sy'n ymwneud â'u manau cadw, cyfarfod â phobl a gedwir at ddiben trafod sut y cânt eu trin a'r amodau ar eu cyfer, ac archwilio cyfleusterau, gan gynnwys celloedd, cyfleusterau ymolchi a thoiledau, a chyfleusterau darparu bwyd.

Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (yr Alban)

Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn yr Alban yn cynnal ymweliadau rheolaidd, dirybudd â gorsafoedd heddlu i fonitro sut y caiff pobl a gedwir eu trin, a'r amodau ar eu cyfer. Nid yw ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban wedi cael eu henwebu ar wahân yn aelod o NPM y DU ond maent yn aelod o'r ICVA, er eu bod yn cadw eu fframwaith ariannu a rheoli eu hunain. O ganlyniad i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Than (Yr Alban) 2012, rhoddwyd sail statudol i ymweld â dalfeydd yn yr Alban.

Byrddau Monitro Annibynnol

Mae gan IMB ddyletswydd statudol i ymfodloni â chyflwr y carchardai neu'r cyfleusterau cadw mewnfudo y byddant yn ymweld â hwy, sut y cânt eu gweinyddu a sut y caiff carcharorion neu bobl a gedwir eu trin. Mae'r byrddau wedi'u gwneud o aelodau di-dâl o'r gymuned ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau drwy gynnal ymweliadau rheolaidd â sefydliadau. Mae bwrdd i bob carchar yng Nghymru a Lloegr a phob IRC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal ag i STHF sy'n cadw mewnfudwyr. Penodir aelodau bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)

Mae IMB yng Ngogledd Iwerddon yn gyrrff statudol, a'u swyddogaeth yw monitro sut y caiff carcharorion eu trin ac amodau eu carchar. Mae'r byrddau wedi'u gwneud o aelodau di-dâl o'r gymuned ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau drwy gynnal ymweliadau rheolaidd â sefydliadau. Mae tri bwrdd yng Ngogledd Iwerddon, un i bob carchar. Penodir aelodau'r bwrdd gan Weinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon.

Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban

Mae MWCS yn sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithio i ddiogelu hawliau a lles pawb â salwch meddwl, anabledd dysgu neu gyflwr cysylltiedig. Mae mandad MWCS yn eang ac mae eu gweithgareddau'n cynnwys monitro'r gofal a'r driniaeth a roddir i bobl a gedwir dan gyfraith iechyd meddwl.

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon

Fel yng ngweddill y DU, mae dalfeydd yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon yn cael ymweliadau dirybudd rheolaidd gan ymwelwyr â dalfeydd. Gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yw'r ymwelwyr â dalfeydd ac maent yn monitro hawliau, iechyd a lles, ac amodau cadw'r bobl a gedwir yn nalfeydd yr heddlu.

Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau

Corff rheoleiddio ac arolygu yw Ofsted sy'n ceisio hybu rhagoriaeth ym maes gofal i blant a phobl ifanc, ac ym maes addysg a sgiliau i ddysgwyr o bob oed. Yng nghydestun manau cadw, mae Ofsted yn arolygu darpariaeth gofal ac addysg i blant mewn

llety diogel, ac yn asesu darpariaeth addysg a hyfforddiant mewn carchardai a lleoliadau YOI ac IRC fel rhan o arolygiadau a arweinir gan HMIP.

Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr

Swyddogaeth y Comisiynydd Plant yw hybu ymwybyddiaeth o safbwyntiau a buddiannau plant yn Lloegr. Mae gan y Comisiynydd bŵer i fynd i unrhyw safle i gyfweld ag unrhyw blentyn sy'n lletya neu'n derbyn gofal yno. Er nad yw'r Comisiynydd yn cyflawni rhaglen reolaidd o ymweliadau neu arolygiadau, mae ganddi bŵer cyffredinol i fynd i safleoedd lle gellir cadw plant.

Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio

Mae gan yr RQIA y grym i fonitro i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael ac yn hygyrch yng Ngogledd Iwerddon ac i hybu gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau hynny. Un o elfennau allweddol eu swyddogaeth yw arolygu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol mewn mannau cadw, gan gynnwys carchardai, llety diogel i blant neu fannau lle caiff pobl eu cadw dan gyfraith iechyd meddwl.

Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban

Mae Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban yn gorff statudol annibynnol â'r pŵer i fynd i fannau cadw ac adrodd am hawliau pobl a gedwir. Dyletswydd gyffredinol y Comisiwn yw hybu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pharch i hawliau dynol ac, yn benodol, annog arfer gorau yn y maes hwn.

Adran wyth Summary of recommendations

TI Lywodraeth y DU

- 1** Dylai'r llywodraeth ystyried pa swyddogaeth y dylai fod ganddi o ran gweithredu OPCAT mewn Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor.

I gomisiynwyr a darparwyr hebryngiadau ledled y DU

- 2** Dylai plant a phobl ifanc dan 18 oed, menywod a dynion gael eu cludo ar wahân wrth hebrwng pobl a gedwir.
- 3** Dylid bod mecanweithiau effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth am unigolyn a gedwir wrth ei symud rhwng manau cadw. Yng Nghymru a Lloegr, dylai cynllun, fformat a dull defnyddio'r cofnod hebrwng unigolyn ganiatáu cyfnewid gwybodaeth yn gyson, yn effeithiol ac yn brydlon rhwng pawb sy'n gyfrifol am newid lleoliad unigolyn a gedwir.
- 4** Dylai'r mesurau diogelwch a gymerir wrth hebrwng unigolion a gedwir fod yn gymesur i'r risg a achosir ac yn seiliedig ar asesiad o'r unigolion dan sylw.

I wasanaethau llysoedd ledled y DU

- 5** Dylid defnyddio mwy o gysylltiadau fideo-gynadledda i leihau'r angen i bobl a gedwir deithio pellteroedd maith i wneud ymddangosiadau byr yn y llys.

I Asiantaeth Ffiniau'r DU

- 6** Dylid datblygu system ffrwyno achrededig i'w defnyddio ar awyrennau. Dylai pob aelod staff hebrwng gael hyfforddiant achrededig ar y technegau ffrwyno cymeradwy.

I Weinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon

- 7** Dylid cynnwys celloedd yr heddlu nad ydynt wedi'u henwebu yng Ngogledd Iwerddon yng nghylch gwaith Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon.

I Ysgrifennydd Cabinet Cyfiawnder yr Alban

- 8** Dylai trefniadau monitro carchardai yn yr Alban yn y dyfodol gydymffurfio ag OPCAT.

I Awdurdod Heddlu'r Alban

- 9** Dylai Awdurdod Heddlu'r Alban ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi a gweinyddu ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr heddlu mewn un gwasanaeth heddlu cenedlaethol, gan ystyried gofynion OPCAT.

I'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

- 10** Dylid enwebu ymwelwyr â dalfeydd yn yr Alban yn aelod ychwanegol ar wahân o'r NPM.

Adran naw Atodiadau

Atodiad un

Datganiad ysgrifenedig gan y gweinidog – 31 Mawrth 2009²⁷

Protocol Dewisol y Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT)

Gweinidog Gwladol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mr. Michael Wills): Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT), a gadarnhawyd gan y DU ym mis Rhagfyr 2003, yn mynnu bod gwledydd sy'n rhan ohono'n sefydlu 'mecanwaith atal cenedlaethol' i gyflawni system o ymweliadau rheolaidd â mannau cadw er mwyn atal artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill.

Mae OPCAT yn nodi y caiff mecanwaith atal cenedlaethol fod yn un corff neu'n llawer o gyrff. Bwriad y llywodraeth yw i gyrff arolygu sy'n bodoli eisoes gydweithio i fodloni gofynion OPCAT.

Rwyf yn enwebu'r cyrff canlynol i ffurfio NPM y DU. Os bydd angen ychwanegu cyrff arolygu newydd at yr NPM yn y dyfodol, neu os caiff cyrff yn yr NPM eu hailstrwythuro neu eu hailenwi, rhoddaf wybod i'r Senedd yn unol â hynny.

Cymru a Lloegr

- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
- Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
- Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
- Y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted)

Yr Alban

- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Y Comisiwn Gofal (CC)

Gogledd Iwerddon

- Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
- Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
- Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio (RQIA)
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

²⁷ HC Col 56WS, 31 Mawrth 2009.

Atodiad dau

Mwy o wybodaeth am NPM y DU

Os hoffech fwy o wybodaeth am NPM y DU, cysylltwch â Chyd-drefnydd yr NPM. I gael mwy o wybodaeth am aelodau penodol, efallai yr hoffech ystyried cysylltu â hwy'n uniongyrchol.

National Preventive Mechanism coordinator
HM Inspectorate of Prisons
First Floor, Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ
E-bost:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae gwybodaeth am swyddogaeth pob aelod hefyd i'w chael mewn cronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y DU a gesglir ac a gynhelir gan Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste. Ewch i www.bristol.ac.uk/law/research/centres-themes/hric/hricnprumukdatabase/index.html

Cymru a Lloegr

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons/index.htm

Byrddau Monitro Annibynnol
www.justice.gov.uk/about/imb.htm

Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
www.icva.org.uk

Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi
www.hmic.gov.uk

Y Comisiwn Ansawdd Gofal
www.cqc.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
www.hiw.org.uk

Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr
www.childrenscommissioner.gov.uk

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
www.cssiw.org.uk

Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
www.ofsted.gov.uk

Yr Alban

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban
www.scotland.gov.uk/Topics/Justice/public-safety/offender-management/offender/custody/Prisons/hmip

Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban
www.hmics.org

Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban
www.scottishhumanrights.com

Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban
www.mwcscot.org.uk

Yr Arolygiaeth Gofal
www.scswis.com

Gogledd Iwerddon

Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)
www.imb-ni.org.uk

Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon
www.cjini.org

Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio
www.rqia.org.uk

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
www.nipolicingboard.org.uk/index/publications/custody-visitors.htm

Atodiad tri

Rhestr o dalfyriadau

CI	Yr Arolygiaeth Gofal
CJINI	Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon
CPT	Y Pwyllgor Atal Artaith
CQC	Y Comisiwn Ansawdd Gofal
CSSIW	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
HIW	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HMCIPS	Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban
HMIC	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
HMICS	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban
HMIP	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
HMIPS	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban
HRIC	Canolfan Gweithredu Hawliau Dynol
ICVA	Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
ICVS	Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban
IMB	Byrddau Monitro Annibynnol
IMBNI	Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)
IPCA	Awdurdod Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (Seland Newydd)
IRC	Canolfan symud mewnfudwyr
MWCS	Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban
NHS	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NIPBICVS	Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
NPM	Mecanwaith Atal Cenedlaethol
OCC	Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr
Ofsted	Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
OPCAT	Protocol Dewisol y Confensiwn yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill
RQIA	Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio
SHRC	Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban
SPT	Yr Is-bwyllgor Atal Artaith
STC	Canolfan hyfforddi ddiogel
STHF	Cyfleuster dal tymor byr
UKBA	Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig
YOI	Sefydliad troseddwyr ifanc



Mae'r ddelwedd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn un o fanylion On the Rocks No 2, HMP Frankland, Ysbytai Alffa, Gwobr Platinwm am Ddyfrlliw yng Ngwobrau Koestler 2012. Elusen celfyddydau carchar yw Ymddiriedolaeth Koestler, ac mae'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion diogel a phobl a gedwir i gymryd rhan yn y celfyddydau, gweithio i gyflawni rhywbeth a gweddnewid eu bywydau. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrwyd gan y Tîm Dylunio,
Cyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Gwybodaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder



Cyhoeddwyd gan TSO (y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO, PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu drwy Linell Gymorth y Senedd
Galwad rad: 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop Lyfrau'r Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngwrwyd: www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill